



Cyfarfod

**PWYLLGOR IAITH**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 29AIN EBRILL, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679556**

**rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

## **PWYLLGOR IAITH**

### **AELODAETH (15)**

#### **Plaid Cymru (10)**

Y Cynghorwyr

Rhys Tudur  
Menna Baines  
Alan Jones Evans  
Olaf Cai Larsen  
Meryl Roberts

Beca Brown  
Elfed Wyn ap Elwyn  
Jina Gwyrfa  
Gwynfor Owen  
Elfed Williams

#### **Annibynnol (5)**

Y Cynghorwyr

Beth Lawton  
Rob Triggs  
Hefin Underwood

Gwilym Jones  
Anne Lloyd-Jones

### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

### **Aelod arall a wahoddir**

Y Cyngorydd Llio Elenid Owen, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol– Y Gymraeg

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried

## 4. COFNODION

4 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2025 fel rhai cywir

## 5. ADRODDIAD YR ADRAN TAI AC EIDDO AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023 - 2033

12 - 16

I ystyried yr adroddiad.

## 6. ADRODDIAD YR ADRAN ECONOMI A CHYMUNED AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023 - 2033

17 - 29

I ystyried yr adroddiad.

## 7. ADRODDIAD CAU'R PROSIECT DYNODIADAU IAITH

30 - 41

I ystyried yr adroddiad.

## 8. ADRODDIAD Y TIM ARWEINYDDIAETH A GWASANAETHAU CYFREITIOL AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023 - 2033

42 - 49

I ystyried yr adroddiad.

## PWYLLGOR IAITH: 28 IONAWR 2025

### YN BRESENNOL:

**Y Cynghorwyr:** Menna Baines (Cadeirydd)  
Meryl Roberts (Is-gadeirydd)

Alan Jones Evans, Jina Gwyrfai, Olaf Cai Larsen, Gwynfor Owen, Elfed Williams, Beca Brown, Anne Lloyd-Jones, Hefin Underwood a Peter Thomas.

**Swyddogion:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Llio Mai Dafydd (Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg), Nia Lewis (Ymgynghorydd Iaith) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

### HEFYD YN BRESENNOL:

Eitem 5: Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg) a Rhys Meredydd Glyn (Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd)

Eitem 6: Ian Jones (Pennaeth Adran Gwasanaethau Corfforaethol).

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Rhys Tudur ac Elfed Wyn ap Elwyn.

Croesawyd y Cyngorydd Beca Brown i'w chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor ac estyn diolchiadau i'r Cyngorydd Llio Elenid Owen am ei chyfraniad i'r Pwyllgor dros y blynyddoedd diwethaf gan egluro nad yw hi'n Aelod o'r Pwyllgor mwyach oherwydd ei phenodiad diweddar i Gabinet Cyngor Gwynedd.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

### 3. MATERION BRYD

Ni dderbyniwyd unrhyw fater brys.

### 4. COFNODON

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2024 fel rhai cywir.

### 5. ADRODDIAD YR ADRAN ADDYSG AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023 – 2033

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd a'r Pennaeth Addysg. Tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Adroddwyd ar brosiect sydd yn cael ei gynnal ar y cyd rhwng Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd a'r Urdd sy' anelu i gynyddu cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg. Eglurwyd mai nod y prosiect yw darparu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol gan gynyddu eu hyder yn yr iaith. Manylwyd bod 5 Aelwyd Gymunedol wedi cael eu datblygu yn ardaloedd y Felinheli, Bangor, Caernarfon, Ardudwy a'r Bala, sydd yn cynnig amrywiol weithgareddau y tu allan i oriau ysgol. Cadarnhawyd mai mewn 6 ysgol uwchradd yn y sir mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu cynnal ar hyn o bryd, ond pwysleisiwyd y gobeithir ehangu ar y cynllun cydweithredol hwn i fwy o ysgolion uwchradd yn y dyfodol drwy gydweithio ymhellach gyda'r Urdd, Cell B, Gisda a Menter Iaith Gwynedd.

Eglurwyd bod Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd yn derbyn grant gwerth £20,000 yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru er mwyn mynd ceisio cynyddu hyder pobl ifanc yn yr iaith Gymraeg. Nodwyd bod ffocws y Gwasanaeth ar yr ardaloedd sy'n profi heriau gyda'r iaith Gymraeg megis Bangor a Dolgellau. Cydnabuwyd bod y grant hwn yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol ac felly bydd angen sicrhau bod y gwaith yn cael ei ariannu drwy ddulliau amgen i'r dyfodol.

Cyfeiriwyd at gynlluniau moderneiddio ac ehangu'r darpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant gan gadarnhau bod gwaith adeiladu a moderneiddio Gwedd 1 wedi cael ei gwblhau. Manylwyd bod y wedd hwn yn brosiect gwerth £1.1 miliwn er mwyn creu unedau trochi sy'n pontio addysg Gynradd ac Uwchradd. Cadarnhawyd bod Uned Drochi newydd wedi cael ei adeiladu yn Nhywyn ac ei fod wedi agor yn swyddogol ar 20 Ionawr 2025. Cydnabuwyd bod llithriad byr wedi bod yn amserlen y datblygiad hwn ond bod yr Uned yn barod i dderbyn dysgwyr Cymraeg newydd erbyn hyn. Yn yr un modd, cadarnhawyd bod Gwedd 2 y datblygiadau moderneiddio'r ddarpariaeth drochi ar y gweill gyda unedau newydd yn cael eu datblygu yn Nolgellau a Maesincla. Cadarnhawyd bod yr uned bresennol yn Llanybi yn symud i fod ar safle Ysgol Cymerau, Pwllheli. Gobeithiwyd bydd y dair uned newydd yn weithredol o dymor yr haf 2025.

Cadarnhawyd fod prosiect TGCh rhithiol 'Aberwla' wedi ei gwblhau erbyn hyn. Eglurwyd bod y prosiect yn rhoi cyfle i ddysgwyr Cymraeg fagu hyder i ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol mewn lleoliadau rhithiol cyn mynd ati i gyfathrebu'n Gymraeg yn eu cymunedau. Esboniwyd bod y lleoliadau rhithiol hyn yn cynnwys cae glampio, archfarchnad, garej, caffi, canolfan hamdden a llyfrgell. Pwysleisiwyd bod y prosiect hwn yn un arloesol a bod gwaith yn cael ei wneud er mwyn ei dreialu mewn ardaloedd eraill yng Nghymru gan gynnwys Wrecsam, Ynys Môn, Rhondda Cynon Taf, Sir Gâr, Bro Morgannwg a Cheredigion.

Cadarnhawyd bod Prifysgol Bangor wedi cael eu comisiynu i gynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Addysg Drochi yng Ngwynedd. Nodwyd eu bod wedi cynnal cyfarfodydd ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ogystal ag arsylwi dysgwyr yn yr unedau trochi fel rhan o'r gwerthusiad. Esboniwyd y disgwylir adroddiad terfynol gydag adborth manwl ym mis Mawrth 2025. Yn yr un modd, cadarnhawyd bodd swyddogion wedi cyflwyno adroddiad ar Gynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg (CSGA) i Lywodraeth Cymru ac wedi derbyn adborth cadarnhaol. Pwysleisiwyd bod GwE yn darparu cymorth i'r ysgolion trosiannol er mwyn sicrhau bod trefniadau grymus mewn lle i gynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.

Atgoffwyd bod cyfres o sesiynau ymgysylltu i drafod Polisi Iaith Addysg bresennol Cyngor Gwynedd wedi cael eu cynnal yn ddiweddar, gyda chefnogaeth Ymgynghorydd Iaith Llawrydd fel hwylusydd. Eglurwyd bod 20 o sesiynau gydag amrywiol rhan-ddeiliaid wedi eu cynnal ac bod yr Ymgynghorydd Iaith lawrydd yn coladu'r holl wybodaeth er mwyn llunio Polisi Iaith Addysg drafft newydd sy'n adlewyrchu'r trafodaethau a gafwyd.

Tynnwyd sylw at waith gwerthfawr Menter Iaith Gwynedd wrth iddynt gydweithio gyda'r gyfundrefn drochi, ysgolion a chymunedau ar gyfer prosiect 'Arwyr Iaith'. Eglurwyd bod y prosiect hwn yn caniatáu i ddisgyblion sydd wedi mynychu'r canolfannau trochi weithio ar ddigwyddiad yn y Gymraeg er mwyn gallu arddangos eu sgiliau ieithyddol newydd gyda'r gymuned ehangach. Canmolwyd y prosiect hwn yn ardal Botwnnog yn ddiweddar a gobeithir bydd llwyddiant y prosiect yn annog mwy o gymunedau i ddathlu llwyddiannau siaradwyr newydd. Ymfalchiwyd bod y prosiect yn weithredol yn ardaloedd Tregarth, Porthmadog a Manod ar hyn o bryd.

Diweddariad bod Fframwaith y Siarter Iaith wedi lansio ar ei newydd wedd gan gynnal sawl sesiwn hyfforddiant ar gyfer staff ysgolion Gwynedd. Eglurwyd bod y cydlynnydd yn gweithio i sefydlu gwobrwyon efydd, arian ac aur wrth ddilysu'r Siarter Iaith.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Llongyfarchwyd y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Urdd ar eu gwaith o sefydlu Aelwydydd Cymunedol, gan ofyn sut mae'r data ynghylch gweithgareddau yn cael eu casglu. Ystyriwyd bod 19,625 o gyfranogiadau yn uchel o ystyried lefelau'r iaith Gymraeg cyffredinol. Mewn ymateb i'r ymholiad, cadarnhaodd Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd bod y ffigwr yn cynnwys pob unigolyn sydd wedi mynychu digwyddiadau, gan nodi ei fod yn cynnwys yr un unigolion os ydynt yn mynychu mwy nag un digwyddiad. Nodwyd bod y dull o gasglu data yn cael ei addasu er mwyn sicrhau eglurder i'r dyfodol.

Gofynnwyd a yw'r Adran yn cydweithio gyda Chlybiau rygbi lleol a Mudiad Ffermwyr Ifanc yng Ngwynedd, gan eu bod yn sefydliadau sydd yn gweithredu'n helaeth drwy'r Gymraeg ac y byddai cydweithio â hwy yn ddull arall o fagu hyder pobl ifanc yn yr iaith Gymraeg. Mewn ymateb, nododd Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd bod cydweithio gyda'r sefydliadau hyn yn syniad da ar gyfer y dyfodol gyda buddion i bobl ifanc Gwynedd a'r iaith Gymraeg. Pwysleisiwyd bod pwysigrwydd mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru yn cael ei bwysleisio fel rhan o waith yr Adran a'r fenter Iaith fel esiampl o sefyllfaoedd anffurfiol gan ddysgwyr a siaradwyr ymarfer eu sgiliau Cymraeg.

Llongyfarchwyd y Gwasanaeth Ieuenctid am ddarparu dros 3000 o weithgareddau a gofynnwyd os oes cynlluniau ar y gweill i sicrhau bod gweithgareddau yn cael eu cynnal yn ardaloedd Arfon a Dwyfor i'r dyfodol. Ymhellach, holwyd os oes data ar gael ar niferoedd y mynychwyr sydd wedi nodi eu bod yn mwynhau defnyddio'r Gymraeg yn ystod y sesiynau ynghyd â mwy o ddata ansoddol i'r dyfodol. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd bod nifer y gweithgareddau yn ganmoliaeth i'r swyddog perthnasol, gan egluro bod grant gwerth £20,000 yn ariannu cyflogaeth yr unigolyn sy'n llywio'r gwaith hwn. Pwysleisiwyd hefyd bod yr unigolyn yn cydweithio'n agos gyda swyddogion mewn ysgolion er mwyn sicrhau bod digwyddiadau ychwanegol annibynnol yn cael eu trefnu yn ychwanegol i waith y swyddog. Cydnabuwyd nad yw mynychwyr digwyddiadau yn cael eu holi os ydynt wedi mwynhau defnyddio'r Gymraeg ac bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei ychwanegu i'r dyfodol, yn ogystal â chyflwyno mwy o ddata ansoddol.

Clodforwyd trefniadau'r Gyfundrefn Drochi yng Ngwynedd gan ystyried os oes modd trochi mwy o bobl yn yr iaith. Nodwyd mai 195 o unigolion oedd wedi cael eu trochi eleni a gofynnwyd oedd modd cynyddu'r ffigwr hwn. Mewn ymateb i'r ymholiad, cadarnhaodd Pennaeth Gyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd bod derbyn 195 o unigolion i'r Canolfannau yn uchel iawn. Pwysleisiwyd bod yr hyfforddiant a geir yma yn arbenigol iawn ac fe fyddai'n peri risg i ansawdd yr hyfforddiant ac yn amharu ar natur gartrefol y Canolfannau pe byddai mwy o fynychwyr yno.

Trafodwyd y gwerthusiad o'r Gyfundrefn drochi gan ofyn am wybodaeth bellach ynghylch pa unigolion sydd wedi cael cyfle i gyflwyno sylwadau. Mewn ymateb, eglurodd Pennaeth Gyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd bod athrawon a phenaethiaid yr ysgolion sydd â disgyblion yn mynychu Canolfannau trochi wedi cael gwahoddiad i rannu sylwadau fel rhan o'r gwerthusiad. Ychwanegwyd bod disgyblion a rhieni hefyd wedi cael lleisio eu barn er mwyn sicrhau bod y gwerthusiad mor fanwl â phosib.

Gofynnwyd faint o hwyr-ddyfodiaid sydd yn mynychu'r Canolfannau Trochi yn ogystal â faint o unigolion rhwng blynyddoedd 2 a 9 sydd yno. Mewn ymateb, eglurwyd nad oedd y data hwn yn cael ei gasglu ac y byddai'n waith sylweddol i gasglu'r data gan ysgolion. Fodd bynnag, manylwyd nad oes disgwyliad i'r unigolion gyrraedd yr un safon ar yr un pryd, gan bod y system wedi cael ei ffurfio i sicrhau bod pawb yn dysgu'r iaith ar raddfa sy'n addasu iddynt fel unigolion. Pwysleisiwyd bod adroddiad cynnydd manwl yn cael ei ddarparu i'r ysgolion wedi i'r unigolion ddiweddu eu cyfnod yn y Canolfannau fel bo gan yr athrawon ymwybyddiaeth o ddealltwriaeth yr unigolyn o'r iaith er mwyn gallu darparu cefnogaeth briodol i'r dyfodol.

Mynegwyd balchder bod wythnosau ail-ennill hyder yn cael eu cynnal ar gyfer disgyblion blynyddoedd 7-9 gan ofyn os oes cynlluniau i ehangu'r cynllun hwn i ysgolion eraill yn y dyfodol. Eglurodd Pennaeth Gyfundrefn Drochi Addysg Gwynedd bod y cynllun hwn wedi dod i sylw swyddogion yn dilyn cyfarfod o rwydwaith cenedlaethol sydd yn rhannu ymarferion da am yr iaith Gymraeg. Pwysleisiwyd ei fod yn gynllun pwysig ac y dymunir ei gyflwyno yn ehangach yng Ngwynedd. Er hyn, cydnabuwyd bod heriau'n codi o ystyried bod cyllidebau cludiant yn amharu ar y gallu i gyflawni'r prosiectau.

Gofynnwyd a yw'r Adran Addysg yn casglu data ar effaith ieithyddol yn yr ardaloedd hynny ble mae ysgolion bychan wedi cau er niferoedd isel o ddisgyblion. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Pennaeth Addysg bod ystyriaeth manwl yn cael ei roi i'r iaith Gymraeg wrth ystyried cau ysgolion, wrth i'r Adran gwblhau Asesiad Effaith Cydraddoldeb o'r penderfyniad. Esboniwyd bod yr Asesiadau hyn rhan amlaf yn nodi nad oes unrhyw risgiau ieithyddol yn codi o gau ysgolion oherwydd bod trefniadau mewn lle i sicrhau bod iaith addysg y plant yn parhau i fod yr un fath wrth iddynt fynychu ysgol arall. Pwysleisiwyd nad oes data am effaith ieithyddol hirdymor yn cael ei gasglu gan yr Adran oherwydd nad yw hyn yn ystyriaeth ofynnol fel rhan o'r prosesau cyfreithiol.

Nodwyd bod 73.2% o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn astudio o leiaf 5 pwnc Cyfnod Allweddol 4 drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â TGAU Cymraeg iaith Gyntaf. Ychwanegwyd bod 84.2% o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn sefyll arholiad TGAU Cymraeg Ail iaith. Gofynnwyd pa waith sy'n cael ei wneud er mwyn sicrhau bod y ffigyrau hyn yn cynyddu yn y blynyddoedd nesaf. Mewn ymateb, eglurodd Pennaeth Gyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd bod nifer o brosiectau ar y gweill er mwyn sicrhau bod cynnydd mewn darpariaeth Gymraeg o bynciau TGAU. Soniwyd bod GwE yn cydweithio gydag ysgolion trosiannol Gwynedd er mwyn eu cynorthwyo gyda'r gofyniad hwn. Ymhellach, cadarnhawyd bod cynllun yn cael ei ddatblygu ar y cyd gyda Choleg Cymraeg Cenedlaethol, am y 3-5 mlynedd nesaf er mwyn cynyddu hyder athrawon i addysgu bynciau TGAU drwy gyfrwng y Gymraeg.

Holwyd pa ddefnydd o dechnoleg gwybodaeth sy'n cael ei wneud o fewn yr Adran Addysg er mwyn hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Sicrhodd Pennaeth Gyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd bod technoleg gwybodaeth yn cael ei ddefnyddio'n gyson er mwyn hyrwyddo'r iaith Gymraeg, gan dynnu sylw pellach at adnodd 'Aberwla'. Ymhelaethwyd bod gwaith yn cael ei wneud er mwyn annog unigolion i ddefnyddio gwefannau cymdeithasol yn y Gymraeg. Pwysleisiwyd bod pob disgybl yn derbyn dyfais gliniadur wrth iddynt fynychu'r ysgol uwchradd er mwyn iddynt allu cyflawni eu gwaith. Cadarnhawyd bydd y dyfeisiadau hyn yn cael eu gosod gyda meddalwedd â gosodiadau Cymraeg. Tynnwyd sylw hefyd bod

Deallusrwydd Artiffisial (AI) Cymraeg yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo penaethiaid mewn rhai sefyllfaoedd.

Cyfeiriwyd at Adroddiad Cynnydd 2024 Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022-27 y gwasanaeth Blynnyddoedd Cynnar gan dynnu sylw mai 47.49% o ddarpariaeth sydd yn uniaith Gymraeg. Ymhelaethwyd bod 47.10% pellach yn cael ei ddarparu yn ddwyieithog gan ystyried sut bod hyn yn cael ei fonitro. Pwysleisiodd Pennaeth Gyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd bod gwaith yn cael ei wneud ar y cyd gyda Mudiadau Meithrin er mwyn sicrhau bod yr iaith yn cael ei hyrwyddo. Ychwanegwyd bod ymgyrchodd hyfforddi a recriwtio hefyd ar waith er mwyn sicrhau bod darpariaeth uniaith Gymraeg ar gynnydd i'r dyfodol.

Nodwyd bod yr ystadegyn mai 64% o ddisgyblion sydd yn hyfedr yn y Gymraeg a Saesneg yn isel, gan holi pa gamau sydd mewn lle i sicrhau bod mwy o ddisgyblion yn hyfedr yn y Gymraeg. Mewn ymateb, pwysleisiodd Pennaeth Gyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd bod diffiniadau o fewn y maes yn annelwig ond bod ffigyrau siaradwyr Cymraeg yn uwch na hynny. Yn ychwanegol i'r 64%, mae 8.8% pellach yn gryfach eu Cymraeg na'r Saesneg a 21.3% arall o ddisgyblion yn gryfach eu Saesneg na'u Cymraeg, ond bod dealltwriaeth o'r Gymraeg. Esboniwyd bod 94.2% â dealltwriaeth gref o'r iaith Gymraeg. Ystyriwyd bod hyn yn ddatblygiad cadarnhaol er bod gwaith angen ei wneud er mwyn gweld cynnydd i'r dyfodol.

Tynnwyd sylw bod 55.57% o staff yr Adran heb gyflawni Hunan Asesiad Ieithyddol i nodi ydynt yn cyrraedd dynodiad iaith eu swyddi. Ystyriwyd nad oes newid sylweddol i'w weld yn y lefelau hyn ers y flwyddyn ddiwethaf. Mewn ymateb i'r pryderon, cadarnhaodd Pennaeth Gyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd nad oes cynnydd yn y ffigyrau hyn gan nad oes gan gyfran fawr o staff yr adran megis staff arlwygo a glanhawyr, fynediad i'r system 'Hunanwasanaeth' gan nad oes ganddynt gyfrif technolegol na chyfarpar i allu llenwi'r holiaduron. Cadarnhawyd bod hyn yn ystyriaeth gan yr Adran a bod trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn mynd i'r afael a'r her hon.

Cyfeiriwyd at y cyfarfodydd ymgysylltu i drafod Polisi Iaith Addysg newydd Gwynedd gan dynnu sylw bod yr eitem hon yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn eu cyfarfod ar 13 Chwefror 2025. Gofynnwyd a oes modd i Aelodau'r Pwyllgor hwn fynychu'r drafodaeth. Mewn ymateb i'r ymholiad, cadarnhaodd yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu y gellir gyrru cais i Gadeirydd y Pwyllgor hwnnw i aelodau'r Pwyllgor Iaith gael bod yn bresennol yn y drafodaeth, gan atgoffa'r Aelodau bod gwe-ddarllediad byw o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi hefyd ar gael os ydynt yn dymuno ei wyllo o adref.

Diolchwyd am yr adroddiad.

## **PENDERFYNWYD**

- 1. Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**
- 2. Gofyn i Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi os oes modd i Aelodau'r Pwyllgor Iaith fynychu cyfarfod 13 Chwefror 2025 i wrando ar y drafodaeth wrth i 'Bolisi Iaith Addysg' gael ei graffu gan yr Aelodau.**
- 6. ADRODDIAD ADRAN GWASANAETHAU CORFFORAETHOL AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023 - 2033**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Adran Gwasanaethau Corfforaethol a tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:



Eglurwyd bod enw'r Adran wedi cael ei newid o 'Cefnogaeth Gorfforaethol' i 'Gwasanaethau Corfforaethol' yn ddiweddar er mwyn cyfleu'r ystod o wasanaethau sy'n rhan o'r Adran.

Cadarnhawyd bod yr Adran yn arwain ar chwe prosiect blaenoriaeth o fewn Cynllun y Cyngor 2023 -2028 ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg ar pob cyfle. Ychwanegwyd bod yr Adran hefyd yn cefnogi nifer o brosiectau eraill y Cynllun megis Blaenoriaethau Cynllun Ffordd Gwynedd 2023 -2028. Manylwyd bod yr Adran yn arwain a chyfrannu'n helaeth at wireddu blaenoriaethau megis:

- Gweithlu Bodlon ac Iach
- Cynllunio'r Gweithlu a Datblygu Talent
- Cynllun Digidol y Cyngor

Adroddwyd bod y Gwasanaeth Ymchwil a gwybodaeth mewn trafodaethau rheolaidd gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Eglurwyd bod y Swyddfa ystadegau Gwladol yn cysidro peidio cynnal Cyfrifiadau yn y dyfodol ac yn ystyried casglu data mewn ffyrdd eraill i gasglu gwybodaeth debyg. Nodwyd ystyrir y Gwasanaeth a'r Adran bod parhau gyda'r Cyfrifiad yn ei ffurf bresennol yn arferiad pwysig i'w barhau.

Tynnwyd sylw bod y Gwasanaeth Cefnogol yn parhau i ddatblygu modiwlau hyfforddiant staff yn ddwyieithog drwy'r system Hunanwasanaeth mewnol. Ychwanegwyd eu bod wedi bod mewn cyswllt gyda swyddfa'r Disclosure and Barring Service (DBS) yn Lerpwl i roi pwysau arnynt ddatblygu ffurflen gais ar-lein Cymraeg, gan ofyn am ddiweddariad at ba bryd bydd y ffurflen honno ar gael i'w defnyddio.

Cyfeiriwyd at waith y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith gan sôn am sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith, Fforwm Iaith Gwynedd, Y Gymraeg mewn busnes, Byrddau partneriaethau, Prosiect Enwau Lleodedd ac Ymwelwyr Gwlad y Basg.

Mynegwyd balchder bod Cyngor Gwynedd wedi cael ei enwebu ar gyfer gwobr 'Cyflogwr y Flwyddyn' yng Ngwobrau Dysgu Seiliedig ar Waith Gogledd Cymru 2025, yn dilyn gwaith yr Adran i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a dylanwadu ar ddarparwyr i ddarparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg i hyfforddeion a phrentisiaid sy'n gyflogedig gan Cyngor Gwynedd.

Cadarnhawyd bod gwaith dylanwadol yn cael ei wneud yn y maes Caffael wrth i reoliadau Caffael newydd gael eu datblygu ar gyfer y dyfodol. Pwysleisiwyd bod y Gwasanaeth Caffael yn dylanwadu ar y trafodaethau hynny er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i'r broses Caffael i'r dyfodol.

Llongyfarchwyd swyddogion Menter Iaith Gwynedd am ddod i'r brig yng ngwobrau Mentrau Iaith Cymru yn ddiweddar. Eglurwyd bod y wobwr yn ymwneud a'u gwaith ar ddatblygu Croeso Cymraeg.

Eglurwyd bod Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn ddatblygiad mae'r Adran yn ymwybodol ohono gan wneud defnydd pan yn briodol gan fod yn wiliadwrus o'r heriau o'i ddefnyddio. Nodwyd bydd y maes hwn yn cael ystyriaeth barhaus gan yr Adran wrth iddo ddatblygu dros y blynyddoedd nesaf.

Adroddwyd bod 166 o'r 176 aelod o staff o fewn yr Adran wedi cwblhau'r hunanasesiad ieithyddol. Cadarnhawyd bod 119 o unigolion sydd wedi ei gyflawni yn cyrraedd Lefel Hyfedredd, 39 o unigolion ar Lefel Uwch ac 8 unigolyn yn cyrraedd Lefel Canolradd. Eglurwyd bod y 10 aelod o staff sydd heb gyflawni'r holiadur hyd yma yn newydd a bydd

yn cwblhau'r holiadur cyn gynted a bod modd, yn unol â phwyslais yr Adran i bwysleisio ar ei bwysigrwydd.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Mynegwyd pryder bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ystyried addasu'r trefniadau ynghylch cynnal y cyfrifiad a gofynnwyd os oes ganddynt opsiynau eraill ar gyfer y dyfodol. Mewn ymateb i'r ymholiad cytunodd Pennaeth Adran Gwasanaethau Corfforaethol ei fod yn bwysig sicrhau bod data yn cael ei gasglu ac nid yw'r gwasanaeth Ymchwil a Data yn cytuno gyda'r awgrym o ddod a'r Cyfrifiad i ben. Fodd bynnag, nodwyd bod y Gwasanaeth yn croesawu newid os oes modd gwarantu bod yr holl ddata angenrheidiol yn cael ei gasglu drwy ddulliau newydd. Pwysleisiwyd bod yr Adran yn annog y Swyddfa Ystadegau Gwladol i barhau gyda'r Cyfrifiad.

Tynnwyd sylw at brosiect newydd sydd ar y gweill o fewn yr Adran ble mae'r Uned Iaith, Dysgu a Datblygu, Adnoddau Dynol a'r tîm Cyfathrebu yn cydweithio er mwyn chwalu mythau ieithyddol. Mewn ymateb i ymholiad am beth yw'r rhai o'r mythau sydd yn bodoli eisoes, eglurodd Pennaeth Adran Gwasanaethau Corfforaethol bod y cyhoedd yn dueddol o gredu bod angen Cymraeg perffaith er mwyn gweithio yn y Cyngor. Manylwyd bod y gwaith traws-wasanaethol hwn yn anelu i addasu swydd ddisgrifiadau er mwyn eu gwneud yn fwy syml a hygyrch gan bwysleisio bod rhai swyddi angen lefelau gwahanol o allu yn y Gymraeg. Ychwanegodd yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu bod y gwaith hwn yn deillio o rôl y Cyngor ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn sydd yn ceisio datblygu cyfres o fideos sydd yn dangos i bobl beth yw gwir anghenion ieithyddol gwahanol swyddi o fewn y Cyngor. Nodwyd hefyd bod y gefnogaeth sydd ar gael i unrhyw un sydd eisiau cymorth i wella eu sgiliau Cymraeg, neu eu hyder i ddefnyddio'r iaith, yn cael ei ddarparu gan y Cyngor. Cydnabuwyd bod mythau ieithyddol yn her benodol ar gyfer recriwtio yn y maes Gofal, ond bod gwaith yn cael ei wneud i chwalu'r mythau hyn drwy ddefnyddio adnoddau'r Cyngor a datblygu adnoddau penodol ar gyfer y maes hwn drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Ymholwyd am drefniadau'r gwasanaeth Cofrestru gan ystyried os oes modd defnyddio ffurflenni Cymraeg neu ddwyieithog ar gyfer cofrestru genedigaethau a marwolaethau erbyn hyn. Mewn ymateb i'r ymholiad, cadarnhaodd Pennaeth Adran Gwasanaethau Corfforaethol nad oes modd defnyddio ffurflenni Cymraeg na dwyieithog ar hyn o bryd gan nad yw systemau gweinyddol y Gwasanaeth yn caniatáu hynny. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod y trafodaethau gyda defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cynnal yn Gymraeg pan mae modd. Ychwanegodd yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu bod yr heriau hyn yn deillio o Lywodraeth San Steffan ac bod lloŷio parhaus yn mynd rhagddo er mwyn i'r iaith fod yn weledol ar y ffurflenni pwrpasol yn y dyfodol.

Gofynnwyd beth yw'r trefniadau i'r aelodau staff hynny sydd angen mynychu hyfforddiant iaith gan eu bod yn dysgu'r Gymraeg o'r newydd, gan ystyried os ydynt yn cael amser i ffwrdd o'r gwaith a chymorth ariannol i fynd at danysgrifiadau megis 'Say Something In Welsh'. Mewn ymateb i'r ymholiad, cadarnhaodd Pennaeth Adran Gwasanaethau Corfforaethol bod trefniadau penodol yn cael eu gwneud ar gyfer pob aelod o staff sydd yn dysgu'r Gymraeg yn seiliedig ar eu hanghenion unigol. Sicrhawyd bod hyfforddiant wythnosol yn cael ei ddarparu o fewn oriau gwaith arferol mewn sesiynau o hyd at 3 awr rhwng mis Medi a mis Mehefin, a bod yr aelodau staff yn cael eu rhyddhau o'r gwaith i fynychu. Ychwanegwyd bod safle

'Hwb Hyfforddiant Iaith' yn dangos i staff beth sydd ar gael yn ychwanegol i hyn. Cadarnhawyd bod gwybodaeth am hyfforddiant newydd yn cael ei rannu yn chwarterol yn dilyn cyfarfodydd o'r Fforwm Dynodiadau Iaith. Esboniwyd nad oes unrhyw aelod o staff wedi gwneud cais am gymorth gyda thanysgrifiadau ond bod croeso i ddysgwyr wneud defnydd o Say Something In Welsh neu Duolingo os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Holiwyd am fwy o wybodaeth am ymweliad diweddar gynrychiolwyr Gwlad y Basg. Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Iaith bod yr ymweliad hwn yn un anffurfiol ar y cyd gyda Phrifysgol Bangor, ARFOR, Menter Iaith Gwynedd a'r adran Economi a Chymuned. Eglurwyd bod yr Uned Iaith wedi darparu cyflwyniad ar Bolisi Iaith Cyngor Gwynedd, gwybodaeth am y Strategaeth Iaith, hyrwyddo gwaith y Fenter Iaith a thynnu sylw at sefydliadau pwysig eraill. Mynegwyd balchder bod y Basgwyr o'r farn fod trefniadau Cyngor Gwynedd yn arloesol ac yn uchelgeisiol iawn. Ychwanegodd yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu bod y Basgwyr yn rhoi buddsoddiad ariannol i'r iaith er mwyn sicrhau ei fod yn ganolog i weithrediad cyffredinol y wlad. Nodwyd nad yw hyn pob amser yn wir yng Nghymru a bod Cyngor Gwynedd yn arwain y ffordd drwy ddatblygu Strategaeth a Pholisi Iaith arloesol sy'n dylanwadu ar sefydliadau eraill.

Gofynnwyd a oes gwaith ymgynghori cymunedol yn digwydd trwy'r Prosiect Enwau Lleodedd gan gyfeirio at gynllun pellgyrhaeddol Parc Cenedlaethol Eryri a oedd yn gwahodd trigolion lleol i gofnodi enwau ar adeiladau ac ardaloedd lleol ar fap. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu bod gwaith tebyg wedi cael ei gynnal gan Gyngor Gwynedd yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan. Cydnabuwyd nad oes mwy o'r sesiynau wedi cael eu cynnal er mwyn peidio mynd ar draws y gwaith pwysig mae'r Parc yn ei wneud yn y maes. Fodd bynnag, nodwyd y byddai'r sylw'n cael ei ystyried wrth lunio'r rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Mewn ymateb i ymholiad ar hyfforddiant Cadernid Iaith, cadarnhaodd yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu bod yr hyfforddiant hwn yn parhau i gael ei gynnal. Eglurwyd mai nod yr hyfforddiant yw ceisio sicrhau nad yw sgysiau yn cael eu troi i'r Saesneg yn ddiangen, drwy sicrhau bod pobl yn parhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn gwrtais mewn sefyllfaoedd cymunedol i addysgu eraill am yr iaith.

Diolchwyd am yr adroddiad.

## **PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

Dechreuodd y Cyfarfod am 10:00yb a gorffennodd am 11:45yb.

---

**CADEIRYDD**

|         |                                           |
|---------|-------------------------------------------|
| Dyddiad | 29 Ebrill, 2025                           |
| Adran   | Tai ac Eiddo                              |
| Awdur   | Carys Fôn Williams, Pennaeth Tai ac Eiddo |

**1. Pa bolisiau a chynlluniau sydd mewn lle o fewn eich adran er mwyn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith? Nodwch y maes blaenoriaeth (blynyddoedd cynnar, dysgu, gwaith a gwasanaeth, y gymuned neu ymchwil a thechnoleg)**

e.e

*Enw*

**Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg** (Blynyddoedd cynnar a dysgu):

*Mae'r maes hwn yn cael sylw penodol yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) ac mae mesurau penodol wedi eu llunio i fonitro cynnydd.*

*Crynodeb byr*

*Sicrhair bod pob lleoliad Blynyddoedd Cynnar yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg, a sicrhau fod pob plentyn yn cael asesiad sgiliau iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg ar fynediad ac ar derfyn addysg feithrin rhan amser ac ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.*

**Polisiau a chynlluniau strategol perthnasol**

**Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd**

Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn cynnwys dros 30 o brosiectau uchelgeisiol a chyffrous sy'n anelu i fynd i'r afael â'r argyfwng tai yng Ngwynedd. Nod pob un o'r prosiectau yw i sicrhau bod pobl Gwynedd yn gallu cael mynediad at dai addas, o safon, fforddiadwy ac sy'n gwella ansawdd eu bywyd.

Yn barod mae dros 8,000 o unigolion lleol wedi derbyn cymorth a chefnogaeth trwy wahanol ddulliau yn deillio o'r Cynllun Gweithredu Tai, boed hynny'n grant neu eithriad treth Cyngor i adnewyddu tŷ gwag, benthyciad trwy'r Cynllun Prynu Cartref, llety a chefnogaeth trwy un o'n cynlluniau i'r digartref, neu grant i wneud addasiadau i dai pobl anabl fel bod modd iddynt barhau i fyw yn annibynnol gartref.

Enghraifft o gynllun sydd wedi mynd i'r afael â'r diffyg tai ar gyfer pobl leol yw'r Cynllun Cartrefi Gwag. Mae 101 o grantiau wedi'u rhoi i brynwyr tai gweigion sydd â chysylltiad lleol er mwyn eu hadnewyddu i safon byw derbynol. Yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2023 ym Moduan, cyhoeddwyd y byddai tai gwag a fu'n arfer bod yn ail gartrefi nawr yn gymwys i dderbyn grant – cam sydd wedi sicrhau bod posib adfer cyn ail gartrefi sy'n sefyll yn segur yn gallu troi'n dai clyd, safonol, fforddiadwy i bobl Gwynedd. Ymhellach, er mwyn ymateb i'r galw, ehangwyd y Cynllun yn niwedd 2024 i gynnwys pob math o brynwr (nid prynwyr tro cyntaf yn unig), ac i gyfarch y cynnydd mewn costau deunyddiau ac adeiladu, mae'r uchafswm grant sydd ar gael fesul cais wedi codi hefyd.

Mae ystyriaeth drylwyr wedi'i wneud i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth lunio'r Cynllun, gan gynnwys nod sy'n ymwneud â'r Gymraeg, ac fe nodir yn glir sut mae pob prosiect yn cyfrannu at yr amcanion hynny ar bob tudalen.

Fel rhan o lunio asesiad effaith ar nodweddion cydraddoldeb, y Gymraeg a'r ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, ceir bod y Cynllun yn cael effaith bositif ar bob un o'r nodweddion cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg trwy gynyddu'r nifer a'r ystod o dai o fewn y sir ar gyfer anghenion gwahanol gymunedau. Bydd effaith bositif ar yr iaith Gymraeg trwy helpu oddeutu 63% o drigolion Gwynedd sydd wedi'u prasio allan o'r farchnad dai gael mynediad at gartrefi fforddiadwy, neu trwy fenthyciadau, grantiau, rhyddhad trethi ac ati. Mae data a gasglwyd gan Gymdeithas Dai Adra ar un o'u stadau newydd yn Ninas, Llanwnda yn ddiweddar yn nodi bod 94% o'r preswylwyr newydd yno yn gallu'r Gymraeg. Cynhaliwyd arolwg tebyg ar un o'u stadau newydd yn Nhregarth hefyd, gyda 96% o breswylwyr y stad honno yn gallu'r Gymraeg.

Bwriedir cyflwyno adroddiad gerbron y Cabinet ym mis Mai eleni fydd yn crynhoi cynnydd diweddar y Cynllun Gweithredu Tai, ynghyd ag amlinellu'r camau nesaf yn sgil ymestyn y Cynllun hyd 2028/29. Hyderwn y bydd ymestyn y Cynllun am ddwy flynedd ychwanegol yn ein galluogi i roi cefnogaeth a chymorth i filoedd yn fwy o bobl Gwynedd dros ei oes.

#### **Strategaeth Tai Cyngor Gwynedd 2019-24**

Mae nodau ac amcanion y Strategaeth yr un mor wir heddiw ag yr oeddent pan luniwyd y ddogfen yn 2019 ac mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn parhau i fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r amcanion hynny. Daeth cyfnod y Strategaeth bresennol i ben yn ddiweddar, ac mae'r Adran wrthi'n diweddarau'r Strategaeth ar gyfer y cyfnod nesaf.

#### **Prosiectau yng nghynllun y Cyngor**

##### **Gwynedd Glyd**

- **Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol** – amcanion y flaenoriaeth hon yw sicrhau bod gan y sawl sydd ei angen opsiynau i gael cartref addas, fforddiadwy ac o safon, boed hynny'n gyfle am denantiaeth mewn tŷ cymdeithasol neu ganolraddol, cyfle i brynu tŷ, neu gyfle i adnewyddu a dod â thŷ gwag, segur yn ôl i ddefnydd. Trwy'r ffaith bod 97% o osodiadau trwy'r gofrestr dai yn mynd i rywun â chysylltiad â Gwynedd, ac oddeutu 60% yn mynd i rywun â chysylltiad â'r gymuned y maent yn dymuno byw ynddi, mae ein Polisi Gosod Tai Cyffredin yn mynd hyd yr eithaf i sicrhau bod pobl leol yn cael blaenoriaeth resymol wrth osod tai. Mae ein gosodiadau canolraddol hefyd yn denu sawl teulu lleol pan hysbysebir trwy Tai Teg, gyda 10 teulu ar gyfartaledd yn ymgeisio am bob tŷ a osodir. Trwy roi grantiau i berchnogion newydd ddod â thai gweigion yn ôl i ddefnydd a safon derbyniol, rydym yn llwyddo i gefnogi ar dros 3 chontractwr lleol ar gyfartaledd ar bob cais. Mae hyn yn helpu cwmnïau a'r economi leol.
- **Ymdrin efo'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd** – mae'r flaenoriaeth hon yn cynnig cefnogaeth i nifer o bobl y sir sy'n methu fforddio i gadw eu tai yn gynnes, sydd yn achosi perygl gwirioneddol i'w hiechyd a'u lles. Gall hynny yn ei dro arwain at orfod symud allan o'u tai, ac o bosibl o'r sir, i ganfod llety addas. Rydym yn cydweithio gyda phartneriaid i hwyluso cynlluniau arbed ynni, ac yn darparu grantiau a thalebau ynni er mwyn cynorthwyo trigolion sydd mewn tlodi tanwydd. Hyd yma mae bron i 670 o dai wedi cynyddu eu tystysgrif perfformiad ynni (EPC), a 4,487 o dalebau ynni wedi'u rhoi i bobl Gwynedd.

## Prosiectau a chynlluniau eraill

### **Polisi Gosod Tai Cyffredin Gwynedd**

Mae Polisi Gosod Tai Cyffredin Gwynedd ymysg y polisiau cryfaf yng Nghymru wrth fynd ati i warchod a rhoi blaenoriaeth i bobl leol o fewn y broses osod. Fel y nodir uchod, mae 97% o osodiadau trwy'r gofrestr dai yn mynd i rywun â chysylltiad â Gwynedd, ac oddeutu 60% yn mynd i rywun â chysylltiad â'r gymuned y maent yn dymuno byw ynddi. Credwn fod hyn yn rhoi'r cyfle mwyaf posib i bobl leol sicrhau tenantiaeth gymdeithasol, gan hefyd alluogi i'r Cyngor gyflawni ei ddyletswyddau statudol i letya unigolion a theuluoedd mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd bregus.

Mae'r Adran a'r Cyngor wedi derbyn sawl gohebiaeth gan rai cynghorau cymuned a grwpiau cymunedol yn galw am gynnwys amod ieithyddol fel rhan o'r broses osod tŷ cymdeithasol. Mae'r mater wedi'i godi ar lefel gorfforaethol er mwyn derbyn arweiniad, ac mae'r Cyngor yn derbyn barn gyfreithiol ar y mater.

### **2. Beth arall sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg?**

*(e.e. addysg, adnoddau, teuluoedd, hyrwyddo defnydd o wasanaeth drwy'r Gymraeg)*

- Diweddaru asesiad effaith iaith Gymraeg y Polisi Gosod Tai Cyffredin – bydd yn hyn cael ei wneud ar yr un pryd ag addasiadau posibl i'r Polisi yn sgil deddfwriaeth newydd yn y maes Digartrefedd).
- Parhau i gymryd pob cyfle o fewn ein gallu i gynorthwyo pobl leol Gwynedd gael mynediad at dai fforddiadwy trwy barhau o gynnig cyfleoedd am denantiaethau, grantiau, benthychiadau neu gefnogaeth.

### **3. Ydy datblygiad technoleg wedi amharu ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? Os yn berthnasol rhwch enghraifft. Sut ydych chi'n sicrhau nad yw datblygiad technoleg yn effeithio ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?**

Yn gyffredinol, mae prif systemau swyddfa gefn a brynir gan gwmnïau allanol ar gael yn Saesneg yn unig, ond mae'r Adran yn gwneud defnydd helaeth o apiau a grëir yn fewnol trwy feddalwedd Microsoft PowerApps, ac mae'r rhain i gyd yn cael eu creu yn uniaith Gymraeg.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Adran wedi bod trwy'r broses o sefydlu system newydd ar gyfer ein Gwasanaeth Digartrefedd ac yn y broses o sefydlu system ar gyfer ein huned Opsiynau Tai. Rhan allweddol o'r system Opsiynau Tai yw rhoi mynediad i unigolion at borth ar-lein fydd yn symudiad cyffrous tuag at ddigideiddio'r broses opsiynau tai. Mae gweithdrefnau ar hyn o bryd yn ddibynnol ar godi'r ffôn neu lenwi ffurflenni papur, fodd bynnag, yn y dyfodol bydd modd i unigolion wneud cais ar-lein, gweld statws eu cais, gallu anfon negeseuon at y Tîm Opsiynau Tai a diweddaru'r ffurflen gais – hyn i gyd ar-lein. Bydd hyn yn hwyluso'r trefniadau i bawb ac yn rhoi mwy o ddewis i bobl Gwynedd ynghylch sut

i gysylltu gyda ni. Bydd y prosesau papur a ffôn yn parhau ar gael hefyd i unrhyw un nad ydynt â mynediad neu'n gyfforddus yn defnyddio'r rhyngrwyd.

Llwyddwyd i sicrhau y bydd y porth yn gwbl ddwyieithog. Mae llithriad i'r amserlen o ganlyniad i ddiffygion gan y cwmni ar yr ochr Gymraeg, ond mae trafodaethau parhaus yn digwydd er mwyn datrys y materion cyfieithu cyn bydd y porth yn cael ei agor i'r cyhoedd. Gwaetha'r modd, ni fu'n bosib sicrhau bod y system swyddfa gefn (a ddefnyddir yn fewnol gan swyddogion) ar gael yn Gymraeg gan y byddai cyfieithu'r system yn golygu costau ychwanegol sylweddol oedd y tu hwnt i'r gyllideb oedd ar gael. Fodd bynnag, ni fydd hynny'n effeithio ar allu'r cyhoedd i gael mynediad at eu gwybodaeth na'r porth yn Gymraeg.

#### **4. Sut ydych chi'n cadw cofnod o'r bobl sy'n defnyddio eich gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg? Allwch chi rannu data perthnasol?**

Mae'r ffurflen gais am dŷ cymdeithasol yn cofnodi dewis iaith unigolyn er diben cysylltu gyda'r ymgeisydd yn unig, ac nid yw'n ffurfio rhan o'r broses osod am dŷ. Nid yw ein system gyfredol yn galluogi i ni adrodd y data hwn, ond unwaith bydd y system newydd (y sonnir amdani uchod) yn weithredol, byddwn yn gallu adrodd y data hwn.

Mae'r Gwasanaeth Digartrefedd wedi dechrau cofnodi dewis iaith unigolyn er diben gohebiaeth a chyswllt gan y Gwasanaeth ers i'r system newydd ddod yn weithredol yn hydref 2024. Oherwydd bod hon yn broses newydd, nid yw'r data'n gwbl gyflawn, ond mae'r data sydd gennym yn nodi bod oddeutu 25% yn dymuno gohebiaeth a chyswllt yn y Gymraeg, 62% yn Saesneg ac 13% mewn iaith arall.

Byddwn yn sicrhau bod unrhyw ohebiaeth gychwynnol bob amser yn mynd yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg gyntaf, er mwyn ceisio annog a hybu defnydd yr iaith lle bynnag mae hynny'n bosib. Rydym hefyd yn sicrhau bod unrhyw bostiad ar gyfryngau cymdeithasol yr Adran yn digwydd fel bo'r Gymraeg yn cael ei darllen gyntaf, e.e. cyhoeddi'r post Saesneg cyn y Gymraeg fel bod y postiad Cymraeg yn ymddangos gyntaf ar ffrwd unigolyn.

#### **5. Beth yw sgiliau iaith eich staff?**

Mae'r Adroddiad Dynodiadau Iaith diweddaraf (Mawrth 2025) yn dangos bod 100% o staff yr Adran Tai ac Eiddo wedi derbyn rhyw fath o asesiad (boed yn hunanasesiad neu'n asesiad gan eu rheolwr llinell). Mae 88.1% wedi cwblhau hunanasesiad, ac rydym yn bwriadu edrych ar ffordd o gyrraedd y rhai sydd wedi derbyn asesiad rheolwr llinell yn unig.

O'r rhain, mae 95.4% yn cyrraedd Dynodiadau Iaith eu swyddi, ond sylwn mai di-hyder yw nifer o'r rheiny nad ydynt yn cyrraedd Dynodiadau Iaith eu swyddi a byddai'r gallu ganddynt yn iawn i gynnig gwasanaeth dwyieithog i bobl Gwynedd. Mae rhan helaeth ei gweithlu ar lefel Hyfedredd neu Uwch.

**6. Rhowch enghreifftiau o unrhyw rwystrau, cwynion a chanmoliaeth sy'n gysylltiedig gyda darparu a hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Gymraeg.**

Mae'r maes tai ac eiddo yn gwneud defnydd helaeth o systemau ond fel y sonnir uchod, mae diffyg yn y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer y systemau hyn. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod unrhyw system sy'n wynebu'r cyhoedd ar gael yn ddwyieithog, ond mae costau datblygu systemau swyddfa gefn i fod ar gael yn Gymraeg yn uchel, ac yn aml y tu hwnt i gyllideb ac amserlen, ac felly mae rhwystr i staff ddefnyddio'r rhain yn Gymraeg. Fodd bynnag, cymerir pob cyfle i ddatblygu ein systemau ac apiau ein hunain, naill ai ar y cyd gyda'r Gwasanaeth TG neu yn fewnol, ac mae'r rhain i gyd ar gael yn Gymraeg.

Fel sydd wedi'i nodi uchod, mae gohebiaeth wedi cyrraedd y Cyngor yn galw am gynnwys amod ieithyddol o fewn ein Polisi Gosod Tai, ac mae proses yn mynd rhagddi ar hyn o bryd o dderbyn cyngor cyfreithiol ar y mater.

Adroddiad yr adran i Bwyllgor Iaith yn 2024: [Tai ac Eiddo Cynllun Hybur Gymraeg.pdf](#)



Adroddiad Adran Economi a Chymuned ar weithrediad y Polisi Iaith a chyfraniad tuag at wireddu Strategaeth Iaith Gymraeg 2023- 2033

|         |                    |
|---------|--------------------|
| Dyddiad | 29 Ebrill 2025     |
| Adran   | Economi a Chymuned |
| Awdur   | Sioned E Williams  |

**1. Pa bolisiâu a chynlluniau sydd mewn lle o fewn eich adran er mwyn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith? Nodwch y maes blaenoriaeth (blynyddoedd cynnar, dysgu, gwaith a gwasanaeth, y gymuned neu ymchwil a thechnoleg)**

Mae Gwasanaethau'r Adran yn gweithredu pecyn o brosiectau sydd yn unol â Pholisi Iaith Cyngor Gwynedd.

**Gwasanaeth Datblygu'r Economi:**

Mae Rhaglen ARFOR wedi bod yn gweithredu ers 2019, er mwyn cryfhau economi rhanbarth gorllewin Cymru. Y nod ydi cynnal a chreu gwaith fyddai'n galluogi pobl ifanc i aros a dychwelyd i'r rhanbarth i weithio gan warchod a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae'r rhanbarth yn cynnwys Gwynedd, Môn, Ceredigion a Sir Gar. Gwasanaeth Datblygu'r Economi Cyngor Gwynedd sydd yn arwain ar y gwaith ar ran y 4 sir, gyda Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £11m i gefnogi'r gwaith dros y 2 flynedd diwethaf.

Fel rhan o'r gwaith yma rydym wedi creu Cytundeb Egwyddorion ar gyfer busnesau/mentrau sy'n derbyn cefnogaeth ariannol gan Rhaglen ARFOR. Mae rhan o'r cytundeb yn partneru gyda Comisiynydd y Gymraeg i sicrhau fod busnesau/mentrau yn arwyddo i fyny i'r Cynnig Cymraeg. Yng Ngwynedd mae 20 o fusnesau/mentrau wedi derbyn y Cynnig Cymraeg gyda 36 wedi cwblhau asesiad ieithyddol.

Cynhaliwyd nifer o sesiynau codi ymwybyddiaeth o gynyddu gwelededd y Gymraeg gan Comisiynydd y Gymraeg fel rhan o'r rhaglen ac mae 50 o fusnesau wedi cymryd mantais o'r sesiynau hyn ar draws y rhanbarth.

Yn ogystal, mae ARFOR wedi cynnal Hac Iaith ym mhob sir er mwyn amlygu sut mae busnesau yn defnyddio'r Gymraeg a'r budd mae'n ei gael o wneud hyn. Yng Ngwynedd, cynhaliwyd Hac Iaith yn y Bala gan gwmni Tebot. Caffi yn Bala oedd yn awyddus i gynyddu eu defnydd o'r iaith Gymraeg ond ddim yn siŵr sut i fynd ati. Roedd yn gyfle i ddod a chynulleidfa at ei gilydd i fod yn rhannu syniadau a rhoi adborth i'r busnesau o beth allent wneud. Mae'r Fenter Iaith wedi bod ynghlwm a'r gwaith yma.

Yn ystod 2024 cynhaliwyd gwobrau Mwyaf Cymraeg y Byd. Roedd hwn yn ymgyrch marchnata yn gofyn i bobl Rhanbarth ARFOR i enwebu busnesau fel Busnes Mwyaf Cymraeg y Byd. Roedd yn ymgyrch hynod o lwyddiannus gyda dros 100 o enwebiadau. O ran canlyniadau i Wynedd, bu Caffi Maes Caernarfon yn hynod o lwyddiannus, yn ennill un o'r prif wobrau.

Dyma ddwy enghraifft o gynlluniau eraill gefnogwyd gan y gwasanaeth drwy ARFOR dros y flwyddyn ddiwethaf:

- *C'mon Cymraeg*: crëwyd cyfres byr o bodlediadau sy'n tynnu ar leisiau amrywiol i ystyried effaith y Gymraeg ar ffyniant busnesau a chymunedau ARFOR. Roedd y bennod gyntaf yn archwilio'r syniad o feithrin siaradwyr Cymraeg, a sut mae mynd ati i wneud hynny'n effeithiol ym myd busnes a thu hwnt.
- *Gofod Cymraeg ARFOR*: crëwyd tudalen ar wefan ARFOR a chreu ymgyrch marchnata yn gofyn i bobl Rhanbarth ARFOR enwebu gofodau Cymraeg lle gall pobl fynd i gymdeithasu neu weithio trwy'r Gymraeg [Gofodau Cymraeg — Bwrlwm ARFOR](#)

Mae gweithredu pecynnau gwaith ARFOR yn rhan o brosiect blaenoriaeth Cynllun Cyngor Gwynedd 'Creu'r Amgylchiadau Gorau Posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd i mewn i waith'. Mae bellach yn amod wrth ddyrannu grantiau, a chymorth ehangach, fel SPF, fod rhaid i bob busnes neu fenter sy'n derbyn cymorth gan y Gwasanaeth gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Ar hyn o bryd rydym yn gwneud hyn trwy fynnu bod pob ymgeisydd yn llenwi asesiad iaith Comisiynydd y Gymraeg. I rai, mae hyn yn golygu symud ymlaen wedyn i weithio tuag at ddynodiad Cynnig Cymraeg. Fodd bynnag, mae'n debyg nad oes gan swyddogion CYG y capasiti i gynorthwyo pob busnes yr ydym yn ei gyfeirio atynt, ac felly rydym yn edrych i mewn i ffyrdd amgen o sicrhau gwella defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu cefnogaeth busnes.

### **Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau**

Llwyddodd yr Adran i sicrhau cyllideb ar gyfer Prosiect Diwylliesiant o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Nod y prosiect oedd hyrwyddo diwylliant a threftadaeth, lles corfforol a byw'n iach, a datblygu economi ymweld cynaliadwy. Y prif amcanion a'r buddion oedd cefnogi lles trigolion, cymunedau, busnesau ac amgylchedd Gwynedd. Un o allbynnau'r prosiect oedd gweithredu ymgyrch farchnata ddigidol 'Lleol i Ni' gyda'r prif amcanion o hyrwyddo diwylliant, treftadaeth, iaith, tirwedd, cynnyrch lleol, cymunedau a chyfleoedd awyr agored yr ardal.

Fel rhan o'r prosiect cynhyrchwyd erthyglau newydd gan dri awdur llawrydd o Wynedd sef Anni Llŷn, Rhys Iorwerth a Casia Wiliam. Enghreifftiau o'r cynnwys oedd Golwg Newydd ar Hen Hanes a oedd yn codi'r clawr ar hen chwedlau'r ardal megis Rhys a Meinir yn Nant Gwrtheyrn, Beddgelert, Chwedl Branwen draw yn Harlech a buddugoliaeth Y Ddraig Goch yn Ninas Emrys. Roedd erthygl Dathlu'r Diwylliant yn hyrwyddo gwyliau a dathliadau celfyddydol oedd yn cael eu cynnal ledled yr ardal trwy'r flwyddyn ac yn tynnu sylw at y cyfleoedd hyn i fynd a phrofi iaith a diwylliant yr ardal ar ei orau, yng nghwmni pobl yr ardal. Roedd erthygl Celfyddyd a Diwylliant yn taflu golau ar leoliadau o fewn yr ardal oedd yn cynnig profiad celfyddydol neu ddiwylliannol arbennig a'r un Tafarndai Cymunedol yn codi ymwybyddiaeth ymwelwyr o natur arbennig a nifer tafarndai cymunedol yr ardal.

Cynhyrchwyd amryw o fideos gan fideograffydd o Wynedd ar gyfer y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol a defnyddiwyd cerddoriaeth Gymraeg gan 9 o artistiaid o Eryri a Phen Llŷn fel cerddoriaeth cefndirol i'r clipiau fideo.

#### **Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio:**

Mae'r wybodaeth sydd gennym ar lein yn ddwyieithog ac mae pob deunydd marchnata / hyrwyddo yn ddwyieithog.

Mae Tirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn faes gwaith penodol lle mae'r Gymraeg yn thema llorweddol o fewn y Cynllun Rheoli ac yn derbyn sylw ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd Partneriaeth. Mae trafodaethau wedi cymryd lle i adnabod cyfleon i fonitro unrhyw effeithiau allai deillio o brosiectau sy'n datblygu o'r dynodiad ar y Gymraeg trwy gydweithio efo Prifysgol Bangor ac mae trafodaethau'n parhau ar ymchwil dilynol.

Mae prosiect LleCHI LleNI: Ein Safle Treftadaeth y Byd, Ein Balchder, Ein Dyfodol yn benodol yn hybu'r Gymraeg fel iaith gymunedol ar draws y bröydd llechi. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o gynlluniau penodol i hyrwyddo'r Gymraeg l'r gymuned:

- Digwyddiad Dyffryn Nantlle – iaith a Chwedloniaeth – digwyddiad i gynulleidfa o newydd ddyfodiaid i gael blas o'r iaith ac ynganu ynghyd a sesiwn ar chwedloniaeth a diwylliant.
- Tafod Tirwedd – cynllun sydd yn datblygu adnoddau a gweithgareddau i ddysgwyr.
- Cwrs Cynefin a Chymuned – cwrs i ddatblygu llysgenhaddon o fewn y cymunedau i hyrwyddo'r diwydiant (a'r iaith yn greiddiol) i ymwelwyr.
- Darganfod Geiriau - cynllun ar y cyd a Menter Iaith Gwynedd i gasglu geiriad ac enwau allweddol i'r dyffrynnoedd llechi a'u cerfio ar lechi.

#### **Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau:**

Mae'r Gwasanaeth yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth yn ddwyieithog.

Mae'r porth grantiau cymunedol yn gweinyddu yn ddwyieithog ac mae gofyn i bob buddiolwr grant trydydd parti ddarparu polisi dwyieithog i fodloni'r meini prawf.

#### **Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau:**

Mae'r Gwasanaeth Amgueddfeydd yn trefnu eu harddangosfeydd i gyd yn ddwyieithog ac yn darparu arlwy o weithgareddau yn y Gymraeg (a rhai dwyieithog hefyd). Mae gofod y caffi yn Storiell yn parhau fel hwb cymunedol gan gyd-weithio gyda Menter Iaith Bangor i gynnal sesiynau i annog sgysiau dros baned yn anffurfiol rhwng siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Cymraeg newydd.

Mae Celfyddydau Cymunedol Gwynedd yn parhau i ddarparu sesiynau'n ddwyieithog ar draws Gwynedd i annog creadigrwydd a llesiant cymunedau Gwynedd trwy'r celfyddydau.

Trwy'r Grantiau SPF a'r Grantiau Celfyddydau Cymunedol, Cefnogi Celfyddydau a Sbarduno yn ystod 2024/5 bu cefnogaeth i sefydliadau a chwmnïau diwylliannol Gwynedd gan gyrraedd pob rhan o'r sir a chynnig darpariaeth Gymraeg a dwyieithog. Gobeithir parhau gyda hyn yn 2025/6 . Er enghraifft bu i nifer o artistiaid o dan y Cynllun Sbarduno gael cefnogaeth i gynnal gweithgareddau yn yr iaith Gymraeg

Mae'n ofynnol i rai sydd yn derbyn grant celfyddydau i dderbyn polisi iaith y Cyngor neu gyda un eu hunain ac yn nodi faint o gyfleoedd sydd yn y Gymraeg

#### **Gwasanaeth Archifau Gwynedd:**

Mae'r Gwasanaeth Addysg Archifau ac Amgueddfeydd yn darparu deunydd a gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg i ysgolion ar draws Gwynedd er mwyn iddynt ddeall eu cymunedau, pwysigrwydd y Gymraeg a hunaniaeth lleol. Gwneir hyn drwy fodd Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda 75 ysgol gynradd, 7 ysgol uwchradd a 2 ysgol arbennig yn ymrwymo i'r cytundeb. Hefyd drwy ddefnyddio casgliadau'r Gwasanaeth mae'r Gwasanaeth Archifau yn cynnig gweithgareddau yn ein cymunedau ac yn ein archifdai sydd yn hybu'r Gymraeg. Yn ogystal mae'r Gwasanaeth yn cyd-weithio gyda sefydliadau eraill, megis Amgueddfa Lechi, Gŵyl Arall ayyb i gynnal gweithgareddau.

#### **Llyfrgelloedd Gwynedd a Neuadd Dwyfor:**

Mae llyfrgelloedd Gwynedd yn chwarae rhan allweddol trwy gefnogi pobl i ddysgu a siarad Cymraeg, cael mynediad at adnoddau darllen a gwybodaeth yn Gymraeg, dysgu am ein diwylliant a'n treftadaeth a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol Cymraeg a Chymreig. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i sicrhau fod adnoddau Cymraeg ar gael i gefnogi pob math o anghenion darllen a gwybodaeth, ac i gefnogi anghenion defnyddwyr sydd angen mynediad at lyfrau a deunyddiau eraill yn Gymraeg mewn gwahanol fformatiau. Drwy ddarparu mynediad at lyfrau ac adnoddau Cymraeg, yn ogystal â gweithgareddau yn Gymraeg, rydym yn cyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu'r nifer o bobl sy'n dysgu a siarad Cymraeg ac sy'n gweld budd mewn dysgu a siarad Cymraeg er mwyn gwella sgiliau a chyfleoedd gwaith, a chryfhau ymdeimlad o hunaniaeth cenedlaethol.

Cynigir rhaglen amrywiol o arlwy Cymraeg boed yn ffilm neu berfformiad byw hefyd yn Neuadd Dwyfor. Mae'r neuadd yn cael ei hyrwyddo fel Canolfan Ddiwylliannol Cymraeg ym Mhen Llyn a thu hwnt.

Mae'r gwasanaeth yn parhau i annog timau staff i siarad Cymraeg gyda'i gilydd ac i asesu unrhyw anghenion neu gefnogaeth sydd ei angen arnynt i gyfathrebu'n naturiol gyda'i gilydd yn y Gymraeg.

#### **Morwrol:**

Mae ein holl wasanaethau ar-lein ar gael yn ddwyieithog e.e. cofrestru badau pŵer, ceisiadau am angorfa a thocynnau parcio tymhorol, yn ogystal ag unrhyw ddeunydd a ddarperir i gwsmeriaid neu ddefnyddwyr yr arfordir e.e. pamffledi diogelwch, cod ymddygiad ayyb.

## **2. Beth arall sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg?**

*(e.e. addysg, adnoddau, teuluoedd, hyrwyddo defnydd o wasanaeth drwy'r Gymraeg)*

#### **Gwasanaeth Datblygu'r Economaidd:**

Hyd yma, nid oes unrhyw sicrwydd y bydd Rhaglen ARFOR yn parhau yn 2025/26. Mae Partneriaid yn disgwyl cadarnhad gan Llywodraeth Cymru am y sefyllfa ariannol.

Byddwn yn edrych i sicrhau dull amgen o sicrhau bod busnesau sy'n derbyn cefnogaeth yn gwneud gwell defnydd o'r Gymraeg gan dderbyn nad oes gan Comisiynydd y Gymraeg adnoddau digonol i weithio hefo pob ymgeisydd. Fel rhan o'r gwaith yma mae'r Adran mewn trafodaethau gyda Swyddogion Busnes Cymru, Llywodraeth Cymru i fod yn creu addewid Busnes Iaith Gymraeg. Y gobaith ydi y bydd hyn ar waith 2025-26.

### **Morwrol:**

Er mwyn codi statws y Gymraeg, mae'r gwasanaeth yn cymryd camau bwriadol i:

- Annog a chefnogi staff i siarad a gohebu yn y Gymraeg.
- Darparu cyfleon hyfforddi i staff i wella a dysgu'r iaith.
- Dathlu llwyddiant swyddogion sy'n dysgu Cymraeg.
- Gwella cynnwys dwyieithog yn ein harbyrau ac ar draethau'r sir.

### **Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau**

Mae'r Gwasanaeth yn adnabod yr angen i:

- gefnogi dysgwyr neu rhai sydd yn llai hyderus wrth siarad a defnyddio'r Gymraeg
- ddarparu cyfleon hyfforddi i staff i wella a dysgu'r iaith

Yn ogystal, bydd canlyniad ein comisiwn Datblygu Cynulleidfa a Marchnata drwy cynllun CELF (Y Rhwydwaith Oriel Gelf Cyfoes Genedlaethol) yn darparu adborth all fod o ddefnydd i ni yn y maes yma i'r dyfodol.

### **Llyfrgelloedd Gwynedd a Neuadd Dwyfor**

- Hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith fyw drwy barhau i gynnal sesiynau Paned a Sgwrs yn ein Llyfrgelloedd.
- Sicrhau fod gweithgareddau i blant a theuluoedd unai yn cael eu cynnal yn uniaith Gymraeg neu yn ddwyieithog gyda'r pwyslais ar y Gymraeg fel y brif iaith.
- Sicrhau fod blaenoriaeth yn cael ei roi i weithgareddau oedolion lle croesawir ac anogir Dysgwyr Cymraeg i gymryd rhan.
- Parhau i ddarparu a chynnal casgliadau dynodedig o adnoddau Dysgu Cymraeg ym mhob llyfrgell
- Hyrwyddo argaeledd deunyddiau ac adnoddau Cymraeg drwy ein platfformau digidol
- Cynnal ein casgliad hanes lleol a chasgliad cylchgronau yn ein prif Storfeydd a sicrhau fod gwybodaeth am y casgliadau ar gael i ddefnyddwyr.
- Cydweithio gyda phartneriaid megis Menter Iaith, Cymraeg i blant a Mudiad Meithrin ar gynlluniau a gweithgareddau penodol yn y Llyfrgelloedd i ddenu teuluoedd
- Parhau i gymryd rôl arweiniol wrth weinyddu'r cynllun Llyfrau Print Bras Cymraeg ar ran Llyfrgelloedd Cymru, trwy gydlyn cynllun argraffu llyfrau Print Bras Cymraeg gyda'r bwriad o sicrhau dod adnoddau print bras ar gael yn Gymraeg i'r defnyddwyr hynny sy'n cael trafferth darllen print maint arferol.
- Parhau i gydweithio gyda Chymdeithas y Deillion Gogledd Cymru i sicrhau fod llyfrau llafar Cymraeg ar gael i'w benthyg trwy Lyfrgelloedd Cymru ac yn ddigidol trwy'r platfform digidol cenedlaethol.

- Parhau i gynnal adnoddau llyfrau o werth hanesyddol trwy ein casgliad Llyfrau Plant 19g a'r 20g a gadwir yn y brif Storfa Llyfrgell yng Nghaernarfon
- Cynnal Darlith Flynyddol Llyfrgell Penygroes mewn cydweithrediad a Chymdeithas Hanes Dyffryn Nantlle.
- Cynnal Darlith Goffa Dafydd Orwig yn flynyddol yn Llyfrgell Dyffryn Ogwen
- Cydweithio gyda Casgliad y Werin i adnabod cynnwys i'r wefan, gan hyfforddi staff y gwasanaeth i allu gwneud hyn ac ychwanegu lluniau a chynnwys digidol sy'n cyd-fynd a'r amcanion strategol.
- Gweithredu ar waddol Diwylliesiant drwy ganolbwyntio ar hyrwyddo llenyddiaeth iaith Gymraeg gan ddenu darllenwyr newydd o bob oedran.
- Parhau i ddatblygu rhaglen ehangach yn y theatr gyda'r pwyslais ar ddatblygu nosweithiau Cymraeg byw gyda bandiau ac artistiaid, megis Bwncath, Band Pres Llaregub, Ffatri Jam a Noson Gomedi Cymraeg. Fel rhan o'n arlwy Ffilmiau Clasurol rydym yn dangos ffilmiau megis Hedd Wyn.

### **3. Ydy datblygiad technoleg wedi amharu ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? Os yn berthnasol rhwch enghraifft. Sut ydych chi'n sicrhau nad yw datblygiad technoleg yn effeithio ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?**

#### **Morwrol:**

Mae gwasanaethau cyfieithu Microsoft wedi hwyluso cyfieithu ac yn annog staff i ohebu yn y Gymraeg. Mae rhaglenni fel Cysill ar-lein neu ap 'Geiriaduron' hefyd yn ddefnyddiol iawn. Mae rhai swyddogion yn y gwasanaeth yn defnyddio meddalwedd 'Deallusrwydd Artiffisial' fel 'ChatGPT' i helpu gyda chynhyrchu gohebiaeth yn Gymraeg. Mae technoleg yn ei gwneud hi'n haws i'n swyddogion ddysgu, defnyddio ac ymgysylltu â'r Gymraeg.

#### **Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau:**

Mae cyfieithu ar lein/Cysill wedi hwyluso cyfieithu er mae dal angen craffu'r cynnwys.

#### **Llyfrgelloedd Gwynedd a Neuadd Dwyfor:**

Rydym yn gweld cyfleon i hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy ein darpariaethau digidol. Er enghraifft o gydweithio gyda Chymdeithas y Deillion Gogledd Cymru rydym yn sicrhau fod llyfrau llafar, e-lyfrau a Chylchgronau Cymraeg ar gael i'w benthyg yn ddigidol trwy'r platfform digidol cenedlaethol.

Gellir defnyddio ein ap Llyfrgell drwy gyfrwng y Gymraeg ac rydym yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg drwy ein holl dudalennau Cyfryngau Cymdeithasol.

Wrth gymryd rôl arweiniol yn nyfodiad LMS Cymru Gyfan bydd modd cloddio data ynghylch defnydd Cymru gyfan o adnoddau iaith Gymraeg. e.e Mae data Llyfrgell yn dangos fod benthyciadau llyfrau Cymraeg gan blant dan 7 oed yn aml yn goddiweddyd benthyciadau llyfrau Saesneg.

#### **Rhaglenni Adfywio:**

Rhwysr wedi codi yn rheolaidd fod y ddarpariaeth cyfieithu ddim bob amser yn gweithio oddi ar MSTEams.

### Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau:

Methu defnyddio MS Teams bob tro pan fod angen darpariaeth cyfieithu

### Gwasanaeth Datblygu'r Economi:

Mae Rhaglen ARFOR wedi rhoi sylw i'r dechnoleg a'r iaith Gymraeg gan hyrwyddo argaeledd technoleg dwyieithog a datblygu technoleg yn y Gymraeg o fewn meysydd megis deallusrwydd artifisial.

## 4. Sut ydych chi'n cadw cofnod o'r bobl sy'n defnyddio eich gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg? Allwch chi rannu data perthnasol?

### Gwasanaeth Datblygu'r Economi:

Cefnogi busnes - mae gofyn i bob busnes sydd yn gofyn am gymorth ariannol adrodd ar broffil iaith eu busnes. Dyma gipolwg o ymateb y busnesau yn gofyn am un o'n grantiau datblygu busnes diweddar:

|                           |          |
|---------------------------|----------|
| Cymraeg i gyd             | 26 (22%) |
| Mwy o Gymraeg na Saesneg  | 29 (25%) |
| Cwbl Ddwyeithog           | 26 (22%) |
| Mwy o Saesneg na Chymraeg | 29 (25%) |
| Saesneg i gyd             | 7 (6%)   |

Cefnogi pobl i waith – mae'r tîm Gwaith Gwynedd yn asesu sgiliau ieithyddol pob un sydd yn derbyn cymorth ac yn cynnig cymorth a chefnogaeth i wella sgiliau Cymraeg pan yn briodol.

Dyma dadansoddiad o ymateb yr unigolion cefnogwyd yn ystod y flwyddyn ariannol diwethaf (24-25).

|                    |     |
|--------------------|-----|
| Deall Cymraeg      | 67% |
| Siarad Cymraeg     | 59% |
| Darllen Cymraeg    | 57% |
| Ysgrifennu Cymraeg | 56% |

Mae cynnig i phob un unigolyn â gefnogwyd i ddewis pa iaith maent yn dymuno i ni gyfathrebu â nhw. Dim ond 40% dewisodd i ni cyfathrebu â nhw drwy'r Gymraeg dros y flwyddyn diwethaf.

ARFOR – mae nifer o astudiaethau achos wedi cael eu creu fel rhan o'r rhaglen. Mae pob cynllun wedi cofnodi defnydd iaith busnes drwy ffurflen buddiolwyr. Bydd y gwaith monitro, gwerthuso a dysgu'r rhaglen yn dadansoddi'r wybodaeth erbyn mis Mai 2025. Byddwn yn gallu adrodd bryd hynny ar:

- Nifer Busnesau/Mudiadau yn cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg
- Nifer unigolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella sgiliau Gymraeg

- Cynlluniau treftadaeth/diwylliant/cynnyrch lleol/naws am le a gefnogwyd
- Nifer negeseuon hyrwyddo'r Gymraeg/Hunaniaeth
- Cryfhau'r berthynas a chydweithio gyda Mentrau Iaith

#### **Gwasanaeth Archifau Gwynedd:**

Pan yn ymweld gydag ysgolion neu wrth greu deunyddiau ar gyfer ysgolion mae Swyddog Addysg Archifau ac Amgueddfeydd y Gwasanaeth Archifau yn cofnodi maint y dosbarthiadau sy'n derbyn y deunydd neu'r ymweliad . Yn ystod 2024- 2025 darparwyd deunyddiau a sesiynau drwy gyfrwng y Gymraeg i 3,032 o blant.

Pan yn cynnal gweithgareddau yn yr archifdai neu yn gymunedol mae'r Gwasanaeth Archifau yn cyfri'r nifer sy'n mynychu. Yn ystod 2024-2025 darparwyd gweithgareddau i 177 drwy gyfrwng y Gymraeg.

#### **Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau:**

Mae nifer sydd yn mynychu gweithgareddau yn yr Amgueddfeydd yn y Gymraeg yn cael eu cadw. Mae oddeutu 3,500 wedi cymryd rhan.

#### **Llyfrgelloedd Gwynedd a Neuadd Dwyfor**

- Mae'n system LMS newydd sydd wedi cael ei lansio yn 2024 yn cynnig cyfleon newydd i fonitro a chofnodi gwybodaeth ynghylch arferion benthycwyr adnoddau Cymraeg
- Yn flynyddol rydym yn cyflwyno adroddiad ar ein perfformiad yn erbyn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru. Ar gyfer yr adroddiad hwn rydym yn casglu data am ein benthyciadau / digwyddiadau a chyfleon rydym yn gynnig. Yn ystod 2023 – 2024 benthycwyd 66,163 o eitemau iaith Gymraeg a darparwyd 1,371 gweithgaredd drwy gyfrwng y Gymraeg - a fynychwyd gan 23,512 o drigolion Gwynedd. (Ffigyrau 2024-2025 heb eu cyhoeddi eto yn sgil newid system LMS, ond rydym yn rhagweld y bydd y ffigyrau yma yn parhau yn gyson).
- Rydym yn cadw a chasglu data am holl ddigwyddiadau Neuadd Dwyfor gan gynnwys ffilmiau a pherfformiadau iaith Gymraeg.

#### **Morwrol:**

| Ceisiadau Cofrestru Badau Pŵer |       |
|--------------------------------|-------|
| Iaith Cyflwyno                 | Nifer |
| Cymraeg                        | 4     |
| Saesneg                        | 2472  |
|                                |       |
| Ceisiadau am Angorfa           |       |
| Iaith Cyflwyno                 | Nifer |
| Cymraeg                        | 0     |
| Saesneg                        | 197   |



Mae nifer y ffurflenni a gwblhawyd yn Gymraeg drwy ein gwasanaeth ar-lein ym mlwyddyn 2024/25 yn isel iawn, gyda dim ond 4 ffurflen wedi'u cwblhau yn Gymraeg allan o'r 2669 a gyflwynwyd, sef 0.15%. Mae hyn i'w ddisgwyl gan fod y mwyafrif o berchnogion badau pŵer a dalwyr angorfeydd yn ymwelwyr.

#### **Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau:**

Cofnod yn cael ei gadw o ran y nifer sydd yn canfod gwybodaeth / neu yn ein dilyn ar ein platfformau digidol trwy'r Gymraeg.

Rydym efo cyfrif Cymraeg a Saesneg ar gyfer Facebook, X ac Instagram. Rydym yn defnyddio termau Cymraeg ar y fersiwn Saesneg i gyflwyno a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Nifer defnyddwyr / dilynwyr cyfrifon cymdeithasol Cymraeg Eryri Mynyddoedd a Mor.  
Cyfnod Ebrill 24 – Mawrth 25:

Facebook – 1852

X (Twitter) – 475

Instagram – 934

Defnyddir un cyfrif ar gyfer YouTube a TikTok lle cyhoeddir negeseuon yn y ddwy iaith. Mae hyn yn golygu fod ein dilynwyr i gyd yn gweld ein negeseuon yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Rydym yn defnyddio termau Cymraeg ar y fersiwn Saesneg i gyflwyno a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

#### **Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau:**

Mae'r Gwasanaeth yn cofnodi mynychwyr i ddigwyddiadau 'Ardal Ni' ac mae iaith y mynychwyr yn cael ei gofnodi.

### **5. Beth yw sgiliau iaith eich staff?**

Fe nodwch ddiweddariad data sgiliau iaith staff Adran Economi a Chymuned 2025 yn Atodiad 1. Mae newidiadau i swyddi yn digwydd yn gyson a byddwn yn parhau i fonitro'r newidiadau a'r cynnydd mewn sgiliau iaith yn gyson.

### **6. Rhowch enghreifftiau o unrhyw rwystrau, cwynion a chanmoliaeth sy'n gysylltiedig gyda darparu a hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.**

#### **Morwrol:**

Mae rhai swyddogion parhaol y gwasanaeth, oherwydd mai Saesneg yw eu hiaith gyntaf, yn parhau i siarad Saesneg gyda'i gilydd er ein hymdrechion i'w hannog a'u cymell i siarad Cymraeg. Mae'n anodd monitro'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yn gyson ym mhob safle, ond mae'r mater yn cael sylw cyson i atgoffa pob swyddog o'r disgwyliadau.

Rydym yn annog pob cwsmer sy'n ymweld â'n swyddfeydd i gychwyn pob sgwrs yn Gymraeg, ac rydym hefyd yn ymdrechu i ateb pob galwad ffôn gyda neges ddwyieithog. Mae neges o dan lofnod e-byst mwyafrif o staff y gwasanaeth yn croesawu unrhyw un i

ddefnyddio'r Gymraeg neu Saesneg ac rydym wedi derbyn sylwadau cadarnhaol am hyn yn flaenorol.



Croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg wrth gysylltu efo fi.  
*You are welcome to contact me in Welsh or English*

Er ein bod yn ymdrechu i arddangos gwybodaeth yn ddwyieithog yn ein cyrchfannau (mewn hysbysfyrddau neu yn swyddfeydd yr harbyrau) yn anffodus, mae rhai gwybodaeth / deunydd ond ar gael yn Saesneg, e.e. llawlyfrau morwyr neu bosteri diogelwch.

Mae sefydliadau allanol fel yr Heddlu, Gwylwyr y Glannau a'r RNLI yn gohebu yn Saesneg yn unig, ac fel arfer dim ond drwy gyfrwng Saesneg y cynigir hyfforddiant arbenigol e.e. hyfforddiant llygredd olew. Mae rhai dogfennau hefyd fel ein Cod Diogelwch Morol ac ein hasesiadau risg wedi'u hysgrifennu yn Saesneg gan mae'n angenrheidiol rhannu a thrafod cynnwys y dogfennau hyn gyda sefydliadau allanol, megis Asiantaeth Gwylwyr y Glannau, y 'Marine Accident Investigation Branch' neu'r HSE.

Mae rhai o swyddogion tymhorol y gwasanaeth heb gyfrif e-bost y Cyngor sy'n ei gwneud hi'n her i ni sicrhau eu bod yn cwblhau hunanasesiad iaith, fodd bynnag rydym yn gweithio gyda Swyddog E-ddysgu'r Cyngor i geisio datrys y sefyllfa.

### **Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau**

Nid yw'n bosib bob tro i weithio gydag artistiaid sydd yn siaradwyr Cymraeg. Os felly rydym yn eu cefnogi i gynnal y gweithgareddau gyda cymhorthydd sydd yn siarad Cymraeg. Hefyd rhoddir cyfle i'r artistiaid sy'n ddysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg os ydynt yn hyderus i wneud hynny. Mae cyllido cael cymhorthydd ychwanegol yn gallu bod yn her.

Mae hi'n her ar adegau i rannu gwybodaeth ar gyfryngau cymdeithasol sy'n berthnasol i ddiwylliant yng Ngwynedd ond nad ydynt ar gael yn ddwyieithog.

Mae gallu'r Gwasanaeth hefyd i ddenu gwirfoddolwyr iaith Gymraeg neu siaradwyr newydd yn parhau i fod yn heriol ac rydym yn ystyried y dulliau gorau o fedru denu a rheoli gwirfoddolwyr i'r gwasanaeth

**Rhaglen Rhanbarthol ARFOR** - mae canmoliaeth wedi cael ei rhoi i sut mae Rhaglen ARFOR yn cydweithio gyda rhanddeiliaid ag yn dod a Swyddogion Polisi iaith y Rhanbarth at ei gilydd a'r budd o neud hyn. Galluogi ni i gyd weithio yn agosach, rhannu syniadau a chyd weithio i fod yn rhoi sylw i'r iaith Gymraeg yn y byd busnes/economaidd.

### **Llyfrgelloedd Gwynedd a Neuadd Dwyfor**

Mae mwyafrif llethol o'r gweithgareddau i blant a theuluoedd ac oedolion a gynhelir yn Llyfrgelloedd Gwynedd unai drwy'r Gymraeg yn unig neu gyda Chymraeg yn rhan ganolog ohonynt. Credwn mai trwy roi cyfle i bobl glywed a sgwrsio, a chymryd rhan trwy'r Gymraeg, y bydd y Gymraeg yn cael ei gweld fel iaith gymunedol, fyw.

Dyma un dyfyniad gan fynychwyr - "The story sessions are the only exposure I have to Welsh nursery rhymes and Welsh stories."

Yn sgil sylw lle bu i siaradwyr newydd ofyn i gael ymuno a sesiwn stori i blant er mwyn gwella eu sgiliau Cymraeg, rydym wedi cychwyn grwpiau Paned a Sgwrs i siaradwyr newydd yn nifer o'n Llyfrgelloedd gan gynnwys Llyfrgell Abermaw, Tywyn, Cricieth a Bethesda. Mae'r sesiynau hyn yn gyfle i gyflwyno deunyddiau ac adnoddau amrywiol sydd ar gael o'r llyfrgell.

Credwn fod gwerth neilltuol o gynnal sesiynau yng nghorff y Llyfrgell fel bod y cyhoedd yn cael clywed yr iaith yn cael ei defnyddio mewn ffordd naturiol ac arferol ac fel bod cyfle i bawb gymdeithasu a chynnal ei gilydd.

Trwy ein cynlluniau cydweithio gyda Chymdeithas y Deillion Gogledd Cymru a Y Lolfa, rydym yn gallu cynhyrchu adnoddau llyfrau llafar ac e-lyfrau llafar, a llyfrau print bras, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, gyda'r adnoddau hyn ar gael yn Llyfrgelloedd Gwynedd a Llyfrgelloedd drwy Gymru. Trwy ein cydweithio ar lefel genedlaethol rydym yn sicrhau bydd rhyngwynebau Cymraeg yn ofyn hanfodol ym mhob tendr systemau a gwasanaethau digidol.

### **Rhaglenni Adfywio**

Canmoliaeth i holl weithgareddau a digwyddiadau sydd yn benodol yn ffocysu ar y Gymraeg drwy Gynllun LleChi LleNi ac yn benodol digwyddiad Dyffryn Nantlle - Iaith a Chwedloniaeth (Chwefror 2025)

*"It was a fab event. Thank you so much for setting it up! Can't wait for the next one!"*

*"Can we do it again?....soon!!"*

*"I never knew that the slate landscape surrounding my home had such a magical element. Diolch for the enlightenment?"*

*"Thank you for organising this event, it was very informative and you all did a great job. We learnt a lot to start us off with the Welsh language and we look forward to continue learning Welsh. Thank you again and look forward to more events"*

Adroddiad yr adran i Bwyllgor Iaith yn 2024: [Adran Economi a Chymuned.pdf](#)

# ECONOMI A CHYMUNED

## STAFF SYDD WEDI CWBLHAU HUNANASESIAD

\*Gan gynnwys staff parhaol, cyfnod penodol ac achlysurol


**NIFER**

197

**CANRAN**




## GWASGARIAD LEFELAU



## CYRRAEDD DYNODIADAU IAITH Y SWYDD

\***NODER:** Mae'r ganran a'r ffigyrau hyn yn cynnwys asesiad Rheolwr Llinell a Hunanasesiadau staff.



## Dysgu a Datblygu Cymraeg

Ers yr adroddiad diwethaf mae un aelod o staff SPF Gogledd yn parhau gyda'r cwrs dysgu Cymraeg wythnosol ar lefel Mynediad 2. Yn ogystal mae dau aelod o staff y Gwasanaeth Morwrol yn parhau i ddilyn cwrs dysgu Cymraeg wythnosol ar lefel Sylfaen 2/Canolradd. Mae aelod o staff y Gwasanaeth Morwrol bellach yn dilyn cwrs Blasu ar-lein.

Mae aelod o staff y Gwasanaeth Morwrol hefyd wedi cofrestru i ddilyn cwrs Magu Hyder fydd yn dechrau fis Ebrill 2025.

O'r **9** aelod o staff nad ydyn nhw cyrraedd dynodiadau iaith eu swydd, mae **2** yn derbyn hyfforddiant iaith.

## Casglu Asesiadau

Ar hyn o bryd, mae **30** aelod o staff sydd heb gyflwyno hunanasesiad iaith. O'r rheiny, mae **16** wedi derbyn asesiad iaith gan reolwr llinell, felly **14** aelod o staff sydd heb asesiad iaith o gwbl.

## Adroddiad Cau'r Prosiect Dynodiadau Iaith

### Llio Mai Dafydd (Rheolwr Prosiect)

*Cyflwynir yr adroddiad hwn fel ag yr oedd pan gafodd ei ysgrifennu fis Mehefin 2023 gyda diweddariad ychwanegol ar y diwedd.*

#### Adran Gwasanaethau Corfforaethol

#### Blaenoriaeth Gwella 5 – Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor

### 1 Pwrpas

- 1.1 Mae Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau bod gwasanaethau i drigolion ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ein bod yn gweithredu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n waith parhaus i Hybu'r Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor, ac rydym yn ymwybodol bod angen parhau i gynnal sgiliau iaith ein staff.
- 1.2 Yn ogystal â hynny, gosodir gofynion statudol ar y Cyngor i weithredu a sicrhau gwasanaethau Cymraeg drwy Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r Safonau hyn yn gosod nifer o ddyletswyddau ar y Cyngor o ran cofnodi sgiliau iaith staff ac asesu anghenion ieithyddol swyddi.
- 1.3 I sicrhau hyn, mae Polisi Iaith Cyngor Gwynedd hefyd yn nodi bod angen i weithwyr y Cyngor 'gynllunio a darparu er mwyn sicrhau bod pob gwasanaeth yn ateb angen y boblogaeth leol o safbwynt ieithyddol' a 'sicrhau bod dewis iaith y defnyddiwr yn cael ei nodi a'i barchu bob amser'.
- 1.4 Mae'r prosiect hwn yn cyfrannu at brif nod y flaenoriaeth trwy edrych yn benodol ar ofynion ieithyddol ein swyddi a'u haddasu ble bo angen, yn ogystal â'r unigolion sydd yn y swyddi hynny er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gynnig y gwasanaeth gorau i'r trigolion drwy gyfrwng y Gymraeg. Ochr yn ochr â hynny, sicheir bod y gefnogaeth ar gael ac yn cael ei chynnig yn amserol a phriodol i'r sawl sydd angen, neu eisiau, codi safon ei Gymraeg i gwrdd â'r gofynion ieithyddol a nodir ar Fanylion Person eu swydd. Nodir hynny hefyd ym Mholisi Iaith y Cyngor o dan 11.11 - '[mae'n] ofynnol i staff y Cyngor allu cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg hyd at safon sy'n briodol ac er mwyn gallu cyflawni eu dyletswyddau'n llawn'.
- 1.5 Rhoddwyd y prosiect hwn ar waith er mwyn edrych ar ddwy agwedd yn benodol:
  1. Adolygu gofynion ieithyddol ein swyddi a'u haddasu ble bo angen er mwyn sicrhau bod unrhyw un a gyflogir o'r newydd yn cael eu penodi ar sail gofynion ieithyddol realistig a phriodol o ystyried gofynion cyffredinol y swydd
  2. Sicrhau bod staff cyfredol y Cyngor yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol i ddatblygu eu sgiliau neu ddysgu Cymraeg er mwyn cyrraedd Dynodiadau Iaith eu swydd. Hefyd sicrhau bod cefnogaeth i aelodau o staff sydd eisoes

yn gweithredu'n unol â Dynodiadau Iaith eu swydd neu uwch gadw'r safon a datblygu ymhellach.

## 2 Cefndir

- 2.1 Yn 2015 penderfynodd y Pwyllgor Iaith edrych ar y drefn o gofnodi sgiliau iaith staff, mewn paratoad ar gyfer dyfodiad y Safonau Iaith yn 2016 ac mewn ymdrech i gael gwell dealltwriaeth o union lefel sgiliau staff, yn hytrach na dim ond gallu neu beidio i siarad Cymraeg.
- 2.2 Ym mis Ionawr 2016 gwnaethpwyd penderfyniad bod angen yn gyntaf adolygu gofynion ac amodau iaith swyddi'r Cyngor er mwyn gosod gofynion realistig ochr-yn-ochr â dyletswyddau'r swydd. Er enghraifft:
  - **Athro/Athrawes:** Cadwyd y gofynion ar y lefel uchaf oherwydd natur y swydd.
  - **Cymhorthydd Hamdden:** Cadwyd y gofynion siarad a gwrando yn uchel er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd sgiliau llafar yn y swydd ond gostyngwyd y gofynion ysgrifennu gan nad oes angen i gymhorthydd hamdden ysgrifennu adroddiadau, cofnodion ac ati.
- 2.3 Yn 2017 dechreuwyd ail ran y prosiect, sef cofnodi sgiliau iaith staff a sicrhau bod cefnogaeth ar gael i aelodau cyfredol o staff naill ai gadw safon eu sgiliau Cymraeg neu gyrraedd gofynion iaith eu swydd os oedd bwch yn bodoli.
- 2.4 Dechreuwyd trwy redeg peilot gydag adran Ymgynghoriaeth Gwynedd yn niwedd 2017. Roedd hyn yn rhannol oherwydd anghenion yr Adran, a hefyd oherwydd eu hawydd i gydweithio. Un o'r gwersi pwysicaf a ddysgwyd o'r peilot yw pwysigrwydd cyfarfod Penaethiaid a Rheolwyr, a'u cynnwys yn y broses o'r dechrau un. Yn ogystal â hynny, roedd bod yr adran a'r rheolwyr yn cymryd perchnogaeth o'r gwaith yn hanfodol bwysig i lwyddiant y prosiect.
- 2.5 Sefydlwyd Bwrdd Prosiect i gadw golwg ar y gwaith. Gan fod y prosiect yn galw am edrych ar swyddi (asesu anghenion a'r broses recriwtio), pobl (penodi ac asesu sgiliau) a hyfforddiant, penderfynwyd y byddai'r Bwrdd Prosiect yn cynnwys cynrychiolwyr o wahanol wasanaethau a fyddai'n cyfrannu at yr elfennau hyn, e.e. y gwasanaeth Adnoddau Dynol a'r gwasanaeth Cefnogol.

## 3 Trosolwg o waith y prosiect

- 3.1 O ddiwedd 2018 ymlaen, dechreuwyd ar weithredu'r prosiect gyda phrif adrannau eraill y Cyngor. Gwnaed hyn trwy gysylltu gyda Phenaethiaid a Rheolwyr.
- 3.2 Yn ogystal â phrif adrannau'r Cyngor, mae gwaith hefyd wedi'i wneud i gasglu asesuadau iaith ac i ddatblygu sgiliau iaith staff Byw'n Iach. Er nad oes ymdrech penodol wedi'i wneud i weithredu'r prosiect gyda'r sefydliadau sy'n cael eu lletya gan Gyngor Gwynedd, e.e. Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, Uchelgais

Economaidd Gogledd Cymru a GwE, mae modd iddynt hwythau gwblhau'r holiadur hunanasesu iaith, ac mae cefnogaeth ar gael iddynt ar gais. Mae gwaith hefyd wedi digwydd i gasglu asesiadau iaith gan staff Ysgolion, fydd yn derbyn sylw pellach yn sgil Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg.

- 3.3. Er mwyn hwyluso'r gwaith o gasglu gwybodaeth am sgiliau iaith staff, datblygwyd yr [holiadur hunanasesu iaith](#) a dechreuwyd ei ddefnyddio o 2019 ymlaen. Mae'r holiadur yn gofyn i unigolyn sgorio ei allu i wneud amrywiaeth o dasgau trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn seiliedig ar yr atebion, mae'r holiadur yn darparu lefel iaith ar y diwedd. Mae hefyd yn gyfle i staff nodi eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg, i nodi a oes unrhyw beth y gall y Cyngor ei wneud i'w cynorthwyo i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn eu gwaith, ac yn rhoi'r cyfle iddynt nodi unrhyw angen am hyfforddiant.

Mae'r holiadur wedi'i leoli ar system Hunanwasanaeth y Cyngor, ac mae fersiwn ar safle allanol ar gael i'r rhai sydd heb fynediad at y system Hunanwasanaeth.

Cydnabyddir ei bod yn her sicrhau bod rhai carfannau o staff rheng flaen yn cwblhau'r holiadur hunanasesu iaith. Er mwyn cael syniad o'u sgiliau iaith, gofynnir i reolwyr nodi a yw'r aelodau o staff yn cyrraedd dynodiadau iaith y swydd ai peidio.

- 3.4 Mae pob math o gefnogaeth, gan gynnwys cyrsiau gloywi mewnol, cyrsiau dysgu allanol, cyrsiau dwys, cyrsiau ar-lein ac apiau a gwefannau, yn cael ei gynnig yn barhaus i staff wella neu gynnal eu sgiliau Cymraeg.
- 3.5 Er mwyn cynnig ôl-ofal i dderbynwyr hyfforddiant, a chefnogi siaradwyr dihyder neu sydd eisiau gwella'u Cymraeg trwy ddull gwahanol i ystafell ddosbarth, sefydlwyd y **Cynllun Cyfeillion Cymraeg** ym mis Mawrth 2019. Mae'r Cynllun hwn ynparu aelod o staff hyderus eu Cymraeg gydag aelod o staff sydd eisiau datblygu eu sgiliau iaith.
- 3.6 Ynghyd â staff o'r gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, datblygwyd system er mwyn cadw'r wybodaeth am sgiliau iaith staff. Mae'r system hon yn rhoi'r gallu i greu adroddiadau amrywiol e.e. Adroddiad o unigolion sydd heb asesiad iaith, adroddiad ar gyfer un gwasanaeth yn unig.
- 3.7 Sefydlwyd proses i sicrhau bod adrannau'n derbyn gwybodaeth gyson am lefelau iaith eu staff, y nifer sydd ddim yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi a'r nifer sydd wedi neu yn mynychu hyfforddiant iaith. Mae Penaethiaid bellach yn derbyn adroddiad pob 3 neu 6 mis (yn ôl eu cais).
- 3.8 Datblygwyd yr Hwb Hyfforddiant Iaith mewnol fel man canolog i rannu gwybodaeth am hyfforddiant iaith, am adnoddau defnyddiol ac am y prosiect ei hun, gan gynnwys cwestiynau cyffredin a gwybodaeth ddefnyddiol i reolwyr.
- 3.9 Sefydlwyd Fforwm Dynodiadau Iaith sy'n cynnwys cynrychiolydd o bob un o brif adrannau'r Cyngor a Byw'n Iach. Mae'r Fforwm yn cyfarfod pob 3 mis ac yn cynnig y cyfle i drafod unrhyw heriau sydd wedi codi o ran y Gymraeg, i rannu arfer dda ac i rannu gwybodaeth am gyfleoedd newydd i ddatblygu sgiliau iaith.



- 3.10 Dyma nodi data'r prosiect ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf ar gyfer prif adrannau'r Cyngor (*yn gywir ar 31 Mawrth 2023 ac yn eithrio Ysgolion*):

Cyfanswm staff prif adrannau'r Cyngor: **3,861**

Nifer y staff sydd wedi cwblhau'r hunanasesiad iaith: **2,725 (71%)**

Nifer y staff sydd wedi derbyn rhyw fath o asesiad iaith: **2,915 (75%)**

Nifer y staff sydd ar ôl heb asesiad iaith: **946 (25%)**

Nifer y staff sy'n cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi: **2,668 (92%)**

Nifer y staff sydd ddim yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi: **247 (8%)**

Nifer y staff sy'n uwch na dynodiadau iaith eu swyddi: **1,979 (73%)**

Ers dechrau'r prosiect yn 2017 mae oddeutu **219** o aelodau o staff wedi mynychu hyfforddiant iaith, naill ai i ddysgu Cymraeg neu i ddatblygu eu sgiliau ymhellach.

O'r 247 sydd ddim yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi, mae **35** wedi derbyn hyfforddiant iaith hyd yma.

## 4 Mesur Llwyddiant

### 4.1

| Mesur                                                                                        | Ym mha ffordd?                                                                                                                                                                                                                                  | Wedi llwyddo?                                                                                                        |
|----------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| hadolygu dynodiad iaith pob swydd                                                            | bydd pob swydd wedi'i hadolygu a'r Dynodiadau iaith wedi'u cymeradwyo                                                                                                                                                                           | ✓                                                                                                                    |
| asesu lefel iaith pob aelod o staff ar bwynt arbennig mewn amser                             | bydd pob aelod o staff wedi derbyn asesiad o lefel eu hiaith, ac wedi derbyn lefel sy'n cyfateb i Fframwaith iaith Cyngor Gwynedd                                                                                                               | ✓<br>Hyd y bo modd. Ni fydd byth yn bosib cyrraedd 100% oherwydd trosiant staff, mynediad staff at dechnoleg ac ati. |
| rhori trefniadau gweinyddol a thechnegol effeithiol yn eu lle i gadw a diweddarau gwybodaeth | safle mewnol sy'n diweddarau'r gofrestr staff yn unol â throsiant staff y Cyngor ac unrhyw newidiadau mewn gwasanaethau. Bydd hyn yn galluogi i'r tîm prosiect wybod pwy sydd wedi a heb dderbyn asesiad                                        | ✓                                                                                                                    |
| lleihau nifer y bylchau rhwng dynodiad swydd a lefel unigolyn                                | cynnig hyfforddiant addas i bob aelod o staff sy'n dangos eu bod yn is na dynodiad eu swydd yn dilyn asesiad (neu'n dilyn cais gan reolwr llinell)                                                                                              | ✓<br>Hyd y bo modd. Hyn am barhau i fod yn rhan o waith dydd i ddydd y tu hwnt i gyfnod y prosiect.                  |
| datblygu diwylliant lle mae adrannau'n cymryd perchnogaeth am y Dynodiadau iaith             | bydd Rheolwyr a Phenaeithiaid yn ogystal â staff unigol yn cymryd cyfrifoldeb dros y Dynodiadau iaith eu hunain a pherchnogi unrhyw anghenion datblygol, gan ddod ar ofyn y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad o'u gwirfodd yn ôl yr angen | ✓<br>Hyd y bo modd. Gwaith yn parhau wrth i staff, rheolwyr a phenaethiaid newydd ymuno efo'r Cyngor.                |

|                                                           |                                                                                              |   |
|-----------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------|---|
| adborth y defnyddwyr, o dimau rheoli i unigolion a asesir | adborth llafar, ysgrifenedig, ail-law (e.e. trwy Reolwr Llinell neu drwy gyswllt mewn Adran) | ✓ |
|-----------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------|---|

#### 4.2 Meini Prawf Derbyn:

| Maen prawf                                                          | Wedi cwblhau? |
|---------------------------------------------------------------------|---------------|
| 1. Adolygu Dynodiadau iaith ein holl swyddi                         | ✓             |
| 2. Staff wedi'u hasesu i gyd (data i'w gymryd ar ddyddiad penodol)* | ✓             |
| 3. Trefniadau gweinyddol mewn lle i gadw gwybodaeth gyfredol        | ✓             |

\*hyd y bo'n ymarferol

## 5 Canlyniadau

### 5.1 Adolygu Dynodiadau iaith ein holl swyddi:

Edrychwyd ar ddynodiadau iaith holl swyddi'r Cyngor yn rhan gyntaf y prosiect a gwblhawyd gan y gwasanaeth Adnoddau Dynol. Wrth i weddill y prosiect fynd rhagddo mae Penaethiaid a Rheolwyr wedi cael cyfleoedd pellach i wirio'r dynodiadau iaith ac i wneud unrhyw newidiadau addas mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Dysgu a Datblygu iaith Gymraeg.

Mae proses wedi'i sefydlu gyda'r tîm Cefnogol a'r tîm Adnoddau Dynol hefyd er mwyn sicrhau nad yw dynodiadau iaith unrhyw swydd yn cael eu newid wrth ail hysbysebu swyddi. Yn ogystal, diweddarwyd [Polisi iaith](#) y Cyngor er mwyn cryfhau'r elfen hon (gweler pwynt 12.11), i sicrhau bod y dynodiadau iaith yn cael eu hystyried trwy'r holl broses o hysbysebu a recriwtio (gweler Adran 12 yn ei chyfanrwydd) gan hefyd sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Safonau Gweithredu.

### 5.2 Staff wedi'u hasesu i gyd (hyd y bo'n ymarferol):

Oherwydd trosiant staff uchel y Cyngor, mae bron yn amhosib cyrraedd 100%. Rydym wedi cyrraedd 75% o staff prif adrannau'r Cyngor (gyda 5 allan o 10 o'r prif adrannau wedi cyrraedd dros 90% a 9 allan o 10 o'r prif adrannau wedi cyrraedd dros 60%).

Ar hyn o bryd, yr unig adran sydd o dan 60% wedi eu hasesu ydi'r adran Addysg. Mae ymgyrch benodol ar y gweill i gasglu hunanasesiadau gan staff yr adran, sydd i ddigwydd cyn diwedd Gorffennaf 2023. Mae hyn yn unol â Deilliant 7, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac yn cyfrannu at Gyfrifiad y Gweithlu Addysg. Bydd hyn hefyd yn sicrhau parhad y gwaith at y dyfodol.

Mae sicrhau bod staff rheng flaen, achlysurol a thymhorol yn cwblhau'r hunanasesiad iaith yn gallu bod yn her. Oherwydd hyn, penderfynwyd casglu asesiad iaith syml gan reolwr llinell yr aelodau hyn o staff, lle bo hynny'n addas. Bydd y rheolwr yn nodi a yw'r aelod o staff yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swydd ai peidio, gan roi gwybodaeth sylfaenol inni a chyfrannu at gael gwell syniad o'r nifer o staff nad ydyn

nhw'n cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi. Er hyn, dylai'r adran a'r rheolwr wneud pob ymdrech i sicrhau bod yr aelodau hyn o staff yn cwblhau'r hunanasesiad iaith hefyd, os yn bosibl.

Oherwydd y wybodaeth uchod, a'r hyn a nodir ar gyfer pwynt 3 isod, penderfynwyd fod cynnydd digonol wedi'i wneud er mwyn dod â'r prosiect i ben.

### 5.3 Trefniadau gweinyddol mewn lle i gadw gwybodaeth gyfredol:

**System 'Sgiliau iaith staff':** Ynghyd â'r gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth datblygwyd system er mwyn cadw'r wybodaeth am sgiliau iaith staff. Mae'r system 'Sgiliau iaith staff' yn rhan o'r Modiwl Datblygu Staff, ac yn defnyddio gwybodaeth o System Swyddi Gwynedd. Golyga hyn fod unrhyw wybodaeth a ddefnyddir am staff a'u cyflogaeth gyda'r Cyngor mor gyfredol â phosibl. Mae'r system hon hefyd yn rhoi'r gallu i greu adroddiadau amrywiol e.e. Adroddiad o unigolion sydd heb asesiad iaith, adroddiad ar gyfer un gwasanaeth yn unig. Golyga hyn fod modd darparu gwybodaeth gyfredol i unrhyw un sydd ei angen yn sydyn.

**PowerBI:** Er mwyn gweld trosolwg llawn o'r data a gweld y data cyflawn ar gyfer adrannau yn unigol, penderfynwyd defnyddio rhaglen PowerBI i greu dashfyrdau i arddangos y wybodaeth. Mae'r rhaglen yn cyfuno gwybodaeth o System Swyddi Gwynedd gyda'r wybodaeth sydd yn 'Sgiliau iaith staff' ac yn caniatáu iddo gael ei gyflwyno mewn ffordd sy'n hawdd i'w ddeall a'i ddehongli, a gellir ei ddiweddarau'n hawdd i arddangos y data mwyaf cyfredol.

**LimeSurvey a holiaduron papur:** Er bod gan y mwyafrif o staff y Cyngor fynediad at y system Hunanwasanaeth bellach, nid oes gan rai aelodau o staff y sgiliau technoleg gwybodaeth angenrheidiol neu'r hyder i ddefnyddio'r system eto. Oherwydd hyn, mae'r holiadur hunanasesu iaith yn parhau i fod ar gael trwy safle allanol LimeSurvey ac fel copi papur neu PDF. Nes y bydd modd disodli'r holiadur LimeSurvey yn llwyr, mae trefn wedi'i sefydlu gyda'r gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth er mwyn llwytho unrhyw ganlyniadau o LimeSurvey neu holiadur papur i'r system ganolog unwaith y mis (neu bryd bynnag sy'n ymarferol ac yn addas).

## 6 Parhad y prosiect

Dull arall o fesur llwyddiant y prosiect yw parhad y gwaith yn sgil dod â'r prosiect i ben. Yn ogystal â'r hyn a nodir uchod ym mhwynt 5.3, mae amryw o brosesau ac adnoddau wedi'u datblygu er mwyn sicrhau y bydd llawer o'r gwaith yn parhau.

### 6.1 Adroddiadau Chwarterol

Bydd Adroddiad Chwarterol yn parhau i gael ei anfon at bennaeth pob adran ac at gynrychiolydd yr adran ar y Fforwm Dynodiadau Iaith. Mae'r adroddiad yn fodd o ddiweddarau penaethiaid am gynnydd o ran data cysylltiedig â'r prosiect ac ynghylch staff sy'n mynychu hyfforddiant iaith.

### 6.2 Fforwm Dynodiadau Iaith

Bydd y Fforwm Dynodiadau Iaith yn parhau i gyfarfod pob chwarter er mwyn trafod unrhyw beth sy'n codi yn sgil yr adroddiad chwarterol, i roi cyfle i adrannau nodi unrhyw heriau ac i rannu arfer dda. Bydd hefyd yn cynnig cyfle ychwanegol i rannu gwybodaeth am hyfforddiant iaith ac unrhyw wybodaeth arall berthnasol sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg a sgiliau iaith staff.

### 6.3 Hwb Hyfforddiant Iaith mewnol

Mae'r Hwb Hyfforddiant Iaith mewnol wedi'i ddatblygu'n llawn ac yn cael ei ddiweddu'n gyson gyda gwybodaeth am gyrsiau ac adnoddau newydd, gan ddarparu man penodol i staff ganfod gwybodaeth am hyfforddiant iaith a chefnogaeth bellach. Mae rhan benodol o'r safle sy'n sôn am waith y prosiect Dynodiadau Iaith, sydd hefyd yn cynnwys adnoddau defnyddiol i reolwyr fedru troi atynt am gymorth.

### 6.4 Tip Cymraeg y Mis

Bydd Tip Cymraeg y Mis yn dal i gael ei ryddhau i staff. Mae wedi profi i fod yn llwyddiant ac yn ffordd o ddylanwadu ar bobl y tu hwnt i'r Cyngor hefyd, oherwydd y cydweithio gyda Nant Gwrtheyrn. Bydd y Tip yn ffordd o sicrhau bod staff yn derbyn gwybodaeth am ramadeg a thechnoleg iaith ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

### 6.5 Monitro Perfformiad

Bydd gwybodaeth am sgiliau iaith staff y cael ei hadrodd gan wasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad fel rhan o drefniadau monitro perfformiad yr adran Gwasanaethau Corfforaethol.

Byddwn yn adrodd ar:

- Nifer y staff o'r Prif Adrannau sydd wedi derbyn asesiad iaith
- Nifer y staff o'r Prif Adrannau sydd wedi cwblhau'r hunanasesiad iaith
- Nifer y staff o'r Prif Adrannau sy'n cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi
- Nifer y staff o'r Prif Adrannau sydd ddim yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi

Yn ogystal â'r uchod byddwn yn adrodd ar unrhyw lwyddiannau penodol yn gysylltiedig â hyfforddiant iaith staff.

### 6.6 Adroddiad blynyddol Cyngor Gwynedd ar weithrediad y Safonau Iaith

Bydd gwybodaeth am sgiliau iaith staff yn parhau i gael ei hadrodd yn yr adroddiad blynyddol ar weithrediad y Safonau Iaith, a byddwn hefyd yn parhau i ddarparu atodiad ar yr Hyfforddiant Iaith Gymraeg a ddarparwyd i staff.

### 6.7 Hyfforddiant iaith

Oherwydd gwaith y prosiect, mae gennym bellach ddata mwy manwl a chyflawn am sgiliau iaith staff ac felly mae gennym well gwybodaeth am ble mae angen i ni ganolbwyntio ein hymdrechion o ran darparu hyfforddiant iaith. Gallwn nawr ganolbwyntio mwy o'n hymdrechion ar sicrhau hyfforddiant iaith addas i'r holl aelodau o staff nad ydyn nhw'n cyrraedd gofynion iaith eu swyddi, yn ogystal â chynnig cyfleoedd datblygol i eraill ddatblygu eu sgiliau iaith ymhellach ac ar lefel gloymi.

## 6.8 Trefniadau Recriwtio a Phenodi

Ynghyd â'r Ymgynghorydd Iaith, ychwanegwyd at y wybodaeth ynghylch y dynodiadau iaith a threfniadau recriwtio a phenodi'r Cyngor yn y Polisi Iaith pan adolygwyd a diweddarwyd y polisi ddiwethaf (2022). Yn y Polisi ceir gwybodaeth am bennu gofynion iaith swyddi, hysbysebu, ail hysbysebu, penodi a chyfweld.

Mae'r wybodaeth sydd yn y Polisi Iaith bellach yn gynhwysfawr, yn eglur ac yn hawdd i'w dilyn. Cynhwysir y wybodaeth yn y [Polisi Recriwtio a Phenodi](#) ac yn y [Gweithdrefn Recriwtio a Phenodi](#) yn ogystal.

Bu cydweithio hefyd gyda'r gwasanaeth Cefnogol a'r Swyddog Prosiect Systemau Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau bod cyfeiriad at y polisiâu uchod a Fframwaith Iaith Cyngor Gwynedd yn y modiwl hysbysebu a phenodi newydd sy'n cael ei ddatblygu fel rhan o system Hunanwasanaeth y Cyngor. Bwriad hyn ydi sicrhau bod gan bob rheolwr fynediad hawdd at wybodaeth gysylltiedig â'r dynodiadau iaith ar unrhyw gam o'r broses recriwtio a phenodi, a'u bod yn ymwybodol o'r drefn y disgwylir iddynt ei dilyn.

## 6.9 Ysgolion Gwynedd a sefydliadau eraill

Oherwydd bod gan Ysgolion Gwynedd eu Polisi Iaith eu hunain, prif adrannau'r Cyngor yn unig a dderbyniodd y prif sylw wrth weithredu'r prosiect. Mae gwaith ar y gweill i hyrwyddo'r hunanasesiad iaith gyda staff Ysgolion Gwynedd, a gobeithir y bydd modd cydweithio drwy ddarparu'r data iddynt yn y dyfodol.

Yn yr un modd, gobeithir y gellir parhau i ddylanwadau ar y sefydliadau sy'n cael eu lletya gan Gyngor Gwynedd, e.e. Byw'n Iach, Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, Uchelgais Gogledd Cymru a GwE. Mae nifer o'r sefydliadau hyn wedi cysylltu am gymorth a chefnogaeth gyda'r Gymraeg yn ystod cyfnod y prosiect. Byddwn yn parhau i groesawu cyfleoedd i rannu gwybodaeth a chydweithio at y dyfodol er mwyn sicrhau bod eu staff hwythau yn derbyn cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau iaith.

# 7 Argymhellion

Yn ystod cyfnod gweithredu'r prosiect, cadwyd cofnod o risgiau, gwersi a ddysgwyd a materion a godwyd.

Isod, dyma nodi cyfres o argymhellion mewn ymateb i rai o'r prif bwyntiau a gododd. Gobeithir y bydd modd derbyn yr argymhellion hyn a gweithredu arnynt er mwyn sicrhau cyn lleied o risg â phosib i barhad y prosiect. Gobeithir hefyd y byddant yn fodd o weithredu ymhellach ar yr hyn a ddysgwyd i ehangu dylanwad y gwaith a sicrhau llwyddiant.

#### 7.1 Neges awtomatig i staff newydd

Trwy ddefnyddio 'work flow' o fewn system Sharepoint, mae modd trefnu i neges gael ei hanfon yn awtomatig i aelodau newydd o staff yn gofyn iddynt gwblhau'r holiadur hunanasesu iaith. Gobeithir trefnu i wneud hyn ar y cyd â gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad.

Byddai hyn yn sicrhau bod pob aelod newydd o staff sy'n derbyn cyfeiriad e-bost yn cael cyfarwyddiadau i gwblhau'r hunanasesiad iaith ac yn gymorth i sicrhau parhad gwaith y prosiect gan ddefnyddio llai o adnodd.

#### 7.2 Cais am diwtor Cymraeg trwy gynllun Cymraeg Gwaith

Mae'r Arweinydd a'r Rheolwr Prosiect eisoes wedi cael sgwrs gyda Siwan Iorwerth o Cymraeg Gwaith er mwyn cael mwy o wybodaeth am y cynllun, ac wedi derbyn cadarnhad y byddai modd i ni wneud cais.

- Ni fyddai cost i'r Cyngor, dim ond yr angen i sicrhau ymrwymiad gan oddeutu 60 aelod o staff i fynychu cyrsiau yn ystod y flwyddyn.
- Byddai'r tiwtor yn cael ei drefnu trwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac yn cael eu cyflogi ganddyn nhw, ond wedi'u lleoli efo'r Cyngor.
- Byddai'n ffordd o sicrhau dilyniant i waith y prosiect a chyrraedd mwy o staff sydd angen hyfforddiant, yn enwedig staff rheng flaen sydd angen gwersi mwy hyblyg o ran lleoliad ac amser.
- Byddai'n ffordd o gyfarch y nifer cynyddol o staff sy'n cael eu penodi heb fod yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swydd oherwydd problemau recriwtio mewn rhai meysydd.

#### 7.3 Ailedrych ar y cwestiwn iaith sy'n rhan o ffurflen gais am swydd gyda'r Cyngor

Yn dilyn trafodaeth mewn cyfarfod o'r Bwrdd Prosiect, nodwyd bod angen edrych ar symleiddio'r cwestiwn er mwyn tawelu unrhyw bryderon all fod gan rywun sy'n ymgeisio am swydd efo'r Cyngor, a'i gwneud yn haws i bobl roi ateb clir sy'n adlewyrchiad gwell o'u sgiliau go iawn.

Trafodwyd y posibilrwydd o ddefnyddio'r opsiynau sy'n cael eu cynnig ar y ffurflen TR139 wrth benodi aelod o staff newydd.

#### 7.4 Arweiniad uwch ynghylch safbwynt y Cyngor am y Gymraeg

Mewn cyfarfod o'r Bwrdd Prosiect, nodwyd yr angen am arweiniad uwch ynghylch neges a dull y Cyngor o fynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â recriwtio a phenodi, e.e. penodi staff nad ydyn nhw'n cyrraedd gofynion iaith y swydd, cefnogi dysgwyr, symleiddio iaith y ffurflen gais.

Byddai derbyn neges swyddogol gan y Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol, er enghraifft, yn fodd o sicrhau bod staff ar bob lefel, yn ogystal â'r swyddogion iaith, yn hyderus yn yr hyn yr ydym yn ei drosglwyddo i eraill fel neges am safbwynt y Cyngor yn gysylltiedig â'r Gymraeg wrth drafod materion fel hyn.

#### 7.5 Gwybodaeth yn cael ei roi i reolwyr newydd am y Dynodiadau iaith

I sicrhau parhad y prosiect a bod pob aelod o staff nad ydyn nhw'n cyrraedd dynodiadau iaith eu swydd yn cael eu hannog i ddilyn hyfforddiant iaith, mae'n hollbwysig bod gwybodaeth am y dynodiadau iaith yn cael ei throsglwyddo i reolwyr newydd fel rhan o unrhyw drefniadau anwytho.

Byddai'n fuddiol cydweithio gyda'r gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad er mwyn trefnu hyn.

#### 7.6 Cryfhau trefniadau monitro aelodau o staff sy'n mynychu hyfforddiant iaith

Mae monitro aelodau o staff sy'n mynychu hyfforddiant iaith wedi bod yn gynyddol anodd oherwydd diffyg adnodd yn ddiweddar. I sicrhau bod staff nad ydyn nhw'n cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi yn parhau gyda'u gwersi ac yn gwneud cynnydd addas, byddai sefydlu gwell trefn o fonitro yn gymorth mawr.

Byddai modd edrych ar gofnodi hyfforddiant iaith yn system MoDS, ac o bosib, edrych ar adnodd gweinyddol ychwanegol.

#### 7.7 Sicrhau mwy o gyfleoedd i staff fagu hyder i ddefnyddio eu sgiliau iaith

Er mwyn sicrhau bod staff yn defnyddio'r sgiliau y maen nhw'n eu dysgu yn y gwersi, ac yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd trwy'r Gymraeg, dylid edrych ar greu mwy o gyfleoedd iddynt ymarfer eu sgiliau a magu hyder yn y gweithle.

Gellir gwneud hyn trwy:

- Ddatblygu'r cynllun Cyfeillion Cymraeg presennol – denu mwy o staff i wirfoddoli ac i fod yn rhan o'r cynllun.
- Ddatblygu'r ddarpariaeth fewnol o hyfforddiant iaith ar lefel Gloywi, e.e. creu hyfforddiant Cymraeg Clir.
- Hyrwyddo [Prosiect ARFer](#) (Prifysgol Bangor) gyda gwahanol dimau addas.
- Hyrwyddo a threfnu cyrsiau Magu Hyder trwy gynllun Cymraeg Gwaith.
- Sicrhau bod rheolwyr yn annog staff i ddefnyddio eu sgiliau o fewn eu gwasanaethau ac yn rhoi trefniadau mewn lle i hwyluso defnydd o'r Gymraeg i ddysgwyr/siaradwyr newydd.

## 7.8 Parhau i fonitro a datblygu'r system 'Sgiliau Iaith Staff' yn MoDS

Er mwyn sicrhau bod y data'n gywir ac yn gyfredol, mae'n hollbwysig cadw golwg gyson ar y systemau ac adrodd ar unrhyw broblemau i'r gwasanaeth TG.

Wrth i wasanaethau ac adrannau weld gwerth y prosiect Dynodiadau Iaith a'r wybodaeth sydd ar gael, mae'n bosib y bydd angen addasu systemau/prosesau i hwyluso sut mae adrannau'n derbyn gwybodaeth fyw am sgiliau iaith staff.

Gall hyn gynnwys:

- Datblygu'r tab 'Hyfforddiant Iaith' fel bod data'n cael ei boblogi o MoDS.
- Ychwanegu negeseuon atgoffa i staff trwy Hunanwasanaeth.
- Sicrhau bod canlyniad yr hunanasesiad iaith yn cael ei roi yn erbyn y person nid y swydd.
- Addasu edrychiad adroddiadau parod a'r wybodaeth sy'n cael ei chynnwys.
- Datblygu'r defnydd o raglen PowerBI.

## 7.9 Cefnogaeth i reolwyr wrth gynnal timau sy'n cynnwys dysgwyr

Gall timau droi i fod yn siarad Saesneg yn hawdd iawn os oes ambell berson yn y tîm nad ydyn nhw'n rhugl yn y Gymraeg eto. I gefnogi rheolwyr wrth ddelio â sefyllfa fel hyn, byddai'n fuddiol creu canllaw ar gynnal cyfarfodydd dwyieithog a/neu sefydlu hyfforddiant byr. Gellir edrych ar gydweithio gyda'r Ymgynghorydd Iaith a Sgiliaith i ddatblygu hyn.

# 8 Diweddariad Mawrth 2025

## 8.1 Er mwyn cymharu â'r data a nodwyd ym mhwynt 3.10 dyma'r data diweddaraf ar gyfer prif adrannau'r Cyngor (*yn gywir ar 31 Mawrth 2025 ac yn eithrio Ysgolion*):

Cyfanswm staff prif adrannau'r Cyngor: **4,009**

Nifer y staff sydd wedi cwblhau'r hunanasesiad iaith: **3,383 (84%)**

Nifer y staff sydd wedi derbyn rhyw fath o asesiad iaith: **3,693 (92%)**

Nifer y staff sydd ar ôl heb asesiad iaith: **316 (8%)**

Nifer y staff sy'n cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi: **3,340 (90%)**

Nifer y staff sydd ddim yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi: **351 (10%)**

Nifer y staff sy'n uwch na dynodiadau iaith eu swyddi: **2,322 (63%)**

Ers dechrau'r prosiect yn 2017 mae oddeutu **289** o aelodau o staff wedi mynychu hyfforddiant iaith, naill ai i ddysgu Cymraeg neu i ddatblygu eu sgiliau ymhellach.

O'r 351 sydd ddim yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi, mae **52** wedi derbyn hyfforddiant iaith hyd yma.

## 8.2 Datblygiadau pellach i'r argymhellion

7.1 Ers Gorffennaf 2023 mae neges awtomatig yn cael ei hanfon at staff newydd gan wasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn gofyn iddynt gwblhau'r holiadur hunanasesu iaith.



7.2 Mae cais am diwtor iaith mewnol wedi'i gyflwyno i Cymraeg Gwaith a sgwrs bellach wedi'i threfnu at ddiwedd Mawrth 2025.

7.3 Gwaith ar y gweill i greu fideos 'myth busting' ynglŷn â'r Gymraeg yn y Cyngor fydd yn cyfarch rhan o'r argymhelliad.

7.4 Bydd y gwaith o greu'r fideos 'myth busting' uchod yn cyfrannu at gyfarch yr argymhelliad hwn hefyd.

7.5 Cyflwyniad 'Ymwybyddiaeth iaith i Reolwyr' wedi'i lunio ar y cyd â'r Uned Iaith ac yn cael ei ddarparu o fis Gorffennaf 2025 ymlaen. Mae cyfeiriad at y sesiwn ar yr Hwb Arwain a Rheoli. Mae cyfeiriad hefyd at wybodaeth am y dynodiadau iaith a hyfforddiant iaith yn rhan o'r adnodd i anwytho rheolwyr newydd sy'n cael ei ddatblygu gan wasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad a chwestiynau penodol am ddatblygiad iaith yn rhan o'r adnoddau Gwerthuso Parhaus newydd.

7.6 Mae pob hyfforddiant iaith yn cael ei gofnodi ar y Modiwl Datblygu Staff erbyn hyn, ac mae'r Swyddog Cefnogol Talent a Phrentisiaethau yn darparu cefnogaeth weinyddol. Golyga hyn y bydd cofnod o hyfforddiant iaith yn ymddangos ar 'Gofnod Dysgu' unrhyw un sydd wedi cwblhau cwrs.

7.7 Mae staff wedi'u cyfeirio at gwrs Codi Hyder sy'n cael ei gynnal trwy gynllun Cymraeg Gwaith. Mae bwriad i gynnal sesiynau Codi Hyder fel hyn yn flynyddol i staff y Cyngor trwy'r cynllun. Yn ogystal, mae cyfres o 10 sesiwn 'Datblygu Sgiliau Iaith' wedi'u trefnu i staff loywi eu sgiliau ac mae hyfforddiant Cyfathrebu Clir wedi'i greu fydd yn cael ei ddarparu o fis Mai 2025 ymlaen. Mae bwriad i sefydlu rhwydwaith neu fwy o gyfleoedd i ddod â siaradwyr Cymraeg newydd y Cyngor at ei gilydd.

7.8 Mae'r wybodaeth am hyfforddiant iaith sy'n cael ei rhoi ar MoDS yn poblogi'r cofnod 'Hyfforddiant iaith' ar gyfer pob unigolyn trwy'r system 'Sgiliau Iaith Staff'. Ar hyn o bryd mae gwaith ar y gweill gyda'r gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth i ddatblygu dashfwrdd Power BI fydd yn darparu trosolwg i benaethiaid adran o'r holl ddata iaith ar gyfer eu staff. Mae rhestr o'r holl welliannau sydd angen eu gwneud i 'Sgiliau Iaith Staff' ar MoDS wedi'i chreu ac wedi'i chyflwyno gyda cais y gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad am waith datblygol pellach i system MoDS yn ei chyfanrwydd.

7.9 Mae bwriad i lunio canllaw i gefnogi rheolwyr timau sy'n ddwyieithog.

## **9 Yr hyn a geisir**

9.1 Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Iaith:

- dderbyn cynnwys yr adroddiad hwn.

## Adroddiad Tim Arweinyddiaeth a Gwasanaethau Cyfreithiol ar weithrediad y Polisi iaith a chyfraniad tuag at wireddu Strategaeth iaith Gymraeg 2023- 2033

|                |                                                                                          |
|----------------|------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Dyddiad</b> | 18/04/2025                                                                               |
| <b>Adran</b>   | Tîm Arweinyddiaeth a Gwasanaethau Cyfreithiol                                            |
| <b>Awdur</b>   | Geraint Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol<br>Iwan G Evans, Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol |

### **1. Pa bolisïau a chynlluniau sydd mewn lle o fewn eich adran er mwyn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith? Nodwch y maes blaenoriaeth (blynyddoedd cynnar, dysgu, gwaith a gwasanaeth, y gymuned neu ymchwil a thechnoleg)**

e.e

Enw

**Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg** (Blynyddoedd cynnar a dysgu):

*Mae'r maes hwn yn cael sylw penodol yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) ac mae mesurau penodol wedi eu llunio i fonitro cynnydd.*

Crynodeb byr

*Sicrhier bod pob lleoliad Blynyddoedd Cynnar yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg, a sicrhau fod pob plentyn yn cael asesiad sgiliau iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg ar fynediad ac ar derfyn addysg feithrin rhan amser ac ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.*

Mae yr Adran Tim Arweinyddiaeth a Gwasanaethau Cyfreithiol yn cydweithio gydag adrannau y Cyngor er mwyn cyfrannu at bolisïau, cynlluniau strategol, prosiectau a ffrydiau gwaith penodol sydd yn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith.

Gweler isod enghreifftiau o sut mae'r Adran yn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith:

#### **Polisïau a chynlluniau strategol perthnasol:**

- **Hybu'r Gymraeg** - Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb am sicrhau fod ein uchelgais o ran hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn cael ei arddel ym mhob un o Adrannau'r Cyngor. Mae'n rôl sy'n gofyn iddo fo a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol gefnogi adrannau ar adegau a thro arall yn gofyn am herio mewn modd adeiladol.
- **Mwy Na Geiriau** - Mae gan y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol gyfrifoldebau penodol o ran hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg. Disgwylir i bob Cyngor Sir a Bwrdd Iechyd yng Nghymru benodi uwch arweinydd yn bencampwr y Gymraeg fel rhan o raglen waith Mwy Na Geiriau. Y Cyfarwyddwr Statudol sy'n arddel y rôl honno yng Ngwynedd.
  - Penodwyd y Cyfarwyddwr Statudol yn aelod o Fwrdd Cynghori Mwy Na Geiriau Llywodraeth Cymru am gyfnod o 4 blynedd.
  - Mae'r Cyfarwyddwr hefyd yn gadeirydd y fforwm Mwy Na Geiriau rhanbarthol o Ebrill 2025 ymlaen.
  - Mae aelodau o'r Uned Fusnes (Tim Arweinyddiaeth) yn cynrychioli y Cyngor a'r gwasanaethau gofal mewn fforymau rhanbarthol Mwy na Geiriau, ac yn gyrru ar y rhaglen waith o fewn y Cyngor.

- **Y Cynnig Rhagweithiol** - Fel rhan o waith y rhaglen Mwy Na Geiriau mae'n ofynnol, yn ôl y *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*, i'r pencampwr sicrhau defnydd o'r "Cynnig Rhagweithiol", sef darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano, ar bob achlysur.
  - Datblygodd y Gwasanaethau Cymdeithasol 3 fideo byr eleni yn egluro egwyddorion y Cynnig Rhagweithiol er mwyn hyrwyddo'i ddefnydd.
  - Mae'r Ffurflen Adolygu Pecynnau Gofal a Chymorth Oedolion wedi eu haddasu a cwestiynau wedi eu hychwanegu i'n galluogi ni i gael darlun o'r modd y mae'r gweithlu yn gweithredu'r cynnig rhagweithiol.
- **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** - Mae'r Prif Weithredwr yn aelod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn ac wedi cael y cyfle i hyrwyddo a chefnogi cynllun sy'n edrych ar hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn "nrysau blaen" sefydliadau cyhoeddus eraill Gwynedd. Mae hwn yn un o brif brosiectau'r Bwrdd ar hyn o bryd ac mae cyfle i sicrhau fod sefydliadau eraill yn elwa o brofiad a llwyddiant Gwynedd yn y maes yma.
  - Mae'r gwaith bellach wedi'i gwblhau a phopeth sydd wedi'u cynhyrchu yn eistedd ar wefan y Bwrdd.
  - Mae'r Tim Arweinyddiaeth yn gyfrifol am weinyddiaeth holl gyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn. Mae rhain yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg (yr unig un ar hyd y Gogledd). Rydym yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i'r aelodau sy'n ddi-Gymraeg.
  - Cyfarfod Arbennig BGC wedi bod yn ddiweddar lle roedd 5 aelod statudol BGC yn cyd-arwyddo'r Siarter Teithio Llesol, ynghyd ag aelod arall o'r BGC (3ydd sector). Cyfarfod yn gwbl drwy'r Gymraeg, cyfieithydd ar y pryd wedi'i ddarparu a'r cyflwyniadau yn ddwyieithog.
- **Cydbwyllgor Corfforedig (CBC)** - Mae gan y Cyngor rôl arweiniol mewn sawl partneriaeth ranbarthol ac mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol wedi chwarae rhan ganolog yn sefydlu trefniadau llywodraethu'r partneriaethau hyn, e.e. y Cydbwyllgor Corfforedig (CBC) ar gyfer y Gogledd.
  - Mae sawl deinamig ar waith ynglŷn â sicrhau fod trefniadau'r cyrff yma yn gweithredu'n ddwyieithog; ond, mae'r mewnbwn sydd gan y Gwasanaethau Cyfreithiol yn golygu fod y trefniadau, gan gynnwys y ddogfennaeth llywodraethu ac ati, yn cael ei baratoi a'i ddarparu yn y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal.
  - Cwblhawyd cytundeb trosglwyddo Cynllun Twf i'r CBC yn ddiweddar gyda 11 parti rhanbarthol, dogfen ddwyieithog.
  - Mae gallu Gwynedd i gyflawni materion technegol ac arbenigol yn y Gymraeg a'r Saesneg yn golygu ein bod yn gallu rhoi sicrwydd a hyder wrth gyflawni'r amcanion hyn. Mae hyn yn egwyddor sydd wedi'i sefydlu'n glir o fewn ein gwaith partneriaeth ac yn prysur datblygu i fod y norm.

#### **Prosiectau yng nghynllun y Cyngor**

Mae gwaith y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn darparu her a chefnogaeth barhaus i adrannau'r Cyngor sydd yn gyfrifol am brosiectau o fewn Cynllun y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o'r cynnydd sydd yn cael ei wneud yn erbyn y prosiectau hynny fel rhan o drafodaethau yng nghyfarfodydd Herio a Chefnogi Perfformiad Adrannol. Mae'r iaith yn cael sylw penodol ym mhreif gynlluniau y Cyngor yn cynnwys y Strategaeth Iaith Gwynedd, Cynllun Trawsnewid Digidol, Cynllun Ffordd Gwynedd, Cynllun Hinsawdd a Natur ayb.

- **Gwynedd Gymraeg** - Mae 'Gwynedd Gymraeg' yn ffrwd gwaith o Gynllun y Cyngor. Mae'r holl brosiectau dan Strategaeth Iaith Gwynedd 2023 – 2033 yn cyfrannu at y gwaith. Mae gwaith Strategaeth Iaith Gwynedd wedi ei rannu yn 5 maes gweithredu, ac mae'r Cyngor

yn dangos sut mae amcanion ein strategaeth yn cyfrannu at 3 prif faes strategaeth Cymraeg 2050.

- **Cynllun Digidol** - Y Cyfarwyddwr Corfforaethol sy'n cadeirio Bwrdd Trawsnewid Digidol y Cyngor, ac mae gan y Bwrdd hwn gyfrifoldeb am ddatblygu a gweithredu'r Cynllun Digidol corfforaethol newydd. Mae'r Gymraeg wrth wraidd y Cynllun hwn, ac fe adlewyrchir hyn yn yr Asesiad Addasrwydd Digidol fydd yn gam gorfodol cyn bo unrhyw un o adrannau'r Cyngor yn caffael system neu wasanaeth digidol.
- **Cynllunio'r Gweithlu a Datblygu Talent** – Mae gwaith yr Adran yn bwydo mewn l'r ffrwd gwaith 'Cynllunio'r Gweithlu a Datblygu Talent' sydd yn un o ffrydiau gwaith Cynllun Ffordd Gwynedd. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ddenu a chadw staff yn y tymor hir, trwy sicrhau bod yna gyflenwad digonol o staff ar gael i ddiwallu anghenion gwasanaethau, ac yn benodol felly staff sydd yn gallu'r Gymraeg.

#### Prosiectau a chynlluniau eraill gan yr Adran Tim Arweinyddiaeth a Gwasanaethau Chyfreithiol

- **Fforwm Iaith** - Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, ynghyd ag Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet gyda chyfrifoldeb am y Gymraeg, yn eistedd ar y Fforwm Iaith sirol a sefydlwyd gan yr Uned Iaith. Mae'r Fforwm yn cyfarfod yn ffurfiol yn chwarterol. Bydd y datblygiad hwn ynghyd a sefydlu'r Fenter Iaith ar ei newydd wedd, yn sicr o roi hwb pellach i hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd.
- **Prosiect 15** - Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol hefyd yn aelod o'r Grŵp Prosiect sy'n hyrwyddo "Prosiect 15" sef ymgais i gynyddu'r deunydd sydd ar gael ar y cyfryngau cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg. Clustnodwyd arian i gefnogi'r gwaith hwn sy'n cael ei arwain gan swyddogion yr Uned Iaith.
- **Grŵp Llywio** - Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, ynghyd â'r Uwch Swyddog Iaith a Chraffu, yn aelod o Grŵp Llywio a sefydlwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg er mwyn datblygu modelau polisi i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Ystyrir aelodaeth y Cyngor o'r Grŵp yn un ymgynghorol er mwyn rhannu arfer dda.
- **Gwasanaeth Crwner** - Er bod cyflawni Gwasanaeth Crwner yn fater sydd yn nwylo deilydd y swyddogaeth, mae sawl agwedd yn perthnasu ei hun i rôl y Gwasanaeth Cyfreithiol. Gan mai Gwynedd sy'n penodi'r Crwner a Chwneriaid Cynorthwyol, mae gennym ddylanwad sylweddol ar y gofynion ar gyfer y swyddi hyn. Golyga hyn ein bod wedi medru sicrhau fod y sawl sy'n cael eu penodi yn meddu ar y gallu i gyflawni eu dyletswyddau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn wedi ei gydnabod gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Prif Grwner sydd â throsolwg o'r trefniadau.
- **Gwasanaethau Etholiadol** - Mae'r Swyddog Gwasanaethau Etholiadol yn aelod o Grŵp Cynghori ar y Gymraeg Bwrdd Cydlynw Etholiadol Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys cynrychiolaeth o'r awdurdodau lleol, y Comisiwn Etholiadol a Llywodraethau Cymru a San Steffan.
  - Amcan y Grŵp yw sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal o ran deddfwriaeth a chanllawiau etholiadol. Mae hefyd yn rhannu arfer da mewn materion yn ymwneud â'r Gymraeg ar draws awdurdodau a sicrhau bod hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael i staff gorsafoedd pleidleisio.
  - Mae'r Swyddog hefyd yn Is-gadeirydd Cangen Cymru o Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, sy'n darparu cefnogaeth, hyfforddiant ac arweiniad i swyddogion ar draws y Deyrnas Gyfunol. Mae'r Gymdeithas ar hyn o bryd yn datblygu hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg i staff gorsafoedd pleidleisio.
  - Ers sawl blwyddyn mae'r Uned Etholiadol wedi bod yn dwyn pwysau ar gyflenwr ein system reolaeth etholiadol i addasu'r system i alluogi cynhyrchu rhybuddion etholiadol dwyieithog. Gynt roedd rhai i ni baratoi'r rhybuddion ein hunain er mwyn sicrhau eu bod yn ddwyieithog. Bellach mae'r system yn medru cynhyrchu

rhybuddion yn ddwyieithog a buom yn gweithio gyda'r cwmni i'w cynorthwyo i greu'r fersiynau Cymraeg o'r dogfennau.

- Rydym hefyd wedi gweithio gyda'r cwmni i gynhyrchu llythyrau dwyieithog i'w hanfon at etholwyr i'w hysbysu o'r newidiadau diweddar yn y drefn etholiadol e.e. y drefn gwneud cais am bleidleisiau post.
- Pan fyddwn yn creu dogfennau etholiadol ein hunain rydym yn ei anfon at yr AEA fel fod fersiwn Gymraeg ar gael i bawb drwy'r llyfrgell adnoddau ar eu gwefan. Mae Huw Elfed Roberts, Swyddog Gwasanaethau Etholiadol, yn aelod o'r Grŵp Ymgynghorol ar yr Iaith Gymraeg sef is-grŵp a sefydlwyd gan y Bwrdd Cydlynw Etholiadol

## 2. Beth arall sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg?

(e.e. addysg, adnoddau, teuluoedd, hyrwyddo defnydd o wasanaeth drwy'r Gymraeg)

Dros y flwyddyn nesaf bydd gwaith parhaus yn digwydd yn yr Adran er mwyn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

- **Polisi Gosod Tai** – mae'r Tim Arweinyddiaeth yn y broses o gefnogi'r Adran Tai ac Eiddo gyda'r Polisi Gosod Tai gyda'r gobaith o gryfhau yr elfen ieithyddol yn unol a gofyn y Comisiwn Cymunedau Cymraeg.
- **System Gofal Cymdeithasol Newydd** – Mae'r Tim Arweinyddiaeth yn cefnogi'r gwaith o symud i system newydd fydd yn cymryd lle WCCIS – hyn am geisio sicrhau fod y system newydd yn ei wneud yn llawer haws i gofnodi iaith unigolion sy'n cael gwasanaeth gennym.
- **Gwasanaethau Cymdeithasol** - Cytunwyd i wnïo logo iaith Gymraeg neu Dysgwyr i lifrai gweithlu gofal y Cyngor. Bydd hyn yn cael ei weithredu yng ngwanwyn 2025.
- **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** – Mae'r Is-Grŵp Iaith yn rhan allweddol o waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn tu hwnt o weithgar. Mae'r prosiectau a'r adnoddau sydd eisoes wedi'u datblygu bellach yn eistedd ar y wefan - [Llesiant Gwynedd a Môn | Prosiectau Cymunedol](#).
  - Fel rhan o waith yr Is-Grŵp mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd ar 'herio mythau' - hyderwn y bydd yn bosibl ei lwyfannu ar wefan y Bwrdd a'i fod yno ar gael i unrhyw sefydliad i'w ddefnyddio, boed yn gyhoeddus neu'n breifat.
  - Byddwn yn cydweithio ag aelodau'r BGC, ond hefyd yn ehangach na hynny – partneriaid fel Gyrfa Cymru; Rhaglen/Swyddogion Arfor/Mentera/Menterau Iaith Cymru a Darogan Talent ayb.
  - Mae aelodau'r BGC yn awyddus iawn i barhau i gefnogi siaradwyr newydd, recriwtio a chadw staff Cymraeg ac yn gweld yr adnodd newydd y byddwn yn ei ddatblygu fel rhywbeth defnyddiol i'r rannu a'i ddefnyddio o fewn y sefydliadau – cyd-rannu. Gyda'r adnodd Recriwtio (2il brosiect), bu cydweithio ag Efa, Comisiynydd y Gymraeg gan iddynt fod yn un o'r rhanddeiliaid ac yn cyfrannu at y gwaith.
  - Cydweithio â'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol; Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill a Llywodraeth Cymru i rannu a hyrwyddo'r prosiectau sydd eisoes wedi'u cwblhau.
- **Y Cynnig Rhagweithiol** - Ffurflen Asesu cychwynnol ar gyfer oedolion ynghanol cael ei haddasu a bydd cwestiynau iaith yn cael sylw fel rhan o hyn hefyd er mwyn ein galluogi i gael darlun o'r modd y mae'r gweithlu yn gweithredu'r cynnig rhagweithiol

## 3. Ydy datblygiad technoleg wedi amharu ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? Os yn berthnasol rhwch enghraifft. Sut ydych chi'n sicrhau nad

## Yw datblygiad technoleg yn effeithio ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

Dros y flwyddyn diwethaf mae'r Tim Arweinyddiaeth a'r Gwasanaethau Cyfreithiol wedi gweld cynnydd yn natblygiad technoleg a'r Gymraeg. Gellir cyfeirio at yr enghreifftiau isod:

- **Deallusrwydd Artiffisial** – Mae sawl gwasanaeth ar draws adrannau'r Cyngor wedi gweld cynnydd sylweddol yn y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial neu AI (*Artificial Intelligence*) dros y flwyddyn diwethaf. Rhagwelwn y bydd hwn yn dod yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor dros y flwyddyn i ddod a bydd gwaith yr Adran yn allweddol i sicrhau ein bod fel Cyngor o flaen y gâd gyda datblygiad y dechnoleg yma ac yn manteisio ar y cyfleon mae'n gynnig gan ar yr un adeg sicrhau cyngor ar y risgiau a defnydd priodol.
- **System Ffon** - Cyfarwyddwr Corfforaethol yn cefnogi'r gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth (TG) gyda symud i system ffon newydd fydd yn cysylltu gyda darpariaeth Microsoft Teams a gwella safon y wybodaeth rydym yn ei adnabod o'r system. Mae'r gwasanaeth wedi torri tir newydd drwy gydweithio â chwmni byd-eang CISCO / Webex er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gael am y tro cyntaf yn y Gymraeg. Y gobaith yw y bydd nifer o sefydliadau eraill yn gallu manteisio ar y ddarpariaeth hyn yn y dyfodol.
- **System Gwasanaethau Cymdeithasol** - Cyfarwyddwr Statudol a'r Uned Fusnes wedi bod yn cefnogi'r gwaith o gychwyn digomisiynu ein system/basdata gwasanaethau cymdeithasol (WCCIS), a chomisiynu system newydd o'r farchnad breifat. Mae holl siroedd y Gogledd (a rhan fwyaf o siroedd Cymru) wedi comisiynu yr un system ar draws gwasanaethau Oedolion a Plant, ac mae'r Gwasanaeth yn arwain ar sicrhau fod y system yn cyfarch ein anghenion ieithyddol ni yng Ngwynedd, ond bydd hyn yn cael effaith ar gweddill siroedd Cymru fydd yn defnyddio'r system hefyd.
- Parhau i hyrwyddo opsiynau technoleg mewn gofal sydd ar gael yn y Gymraeg, ac yn cydweithio efo cwmnïau sy'n datblygu technoleg newydd yn y maes i drio sicrhau fod y dechnoleg ddiweddaraf ar gael yn y Gymraeg.
- Mae'r dechnoleg ddiweddaraf yn cael ei ddatblygu yn Saesneg, a dydi'r dechnoleg AI 'voice recognition' er enghraifft ddim yn effeithiol yn y Gymraeg ar hyn o bryd. Mae'r WLGA a'r Llywodraeth yn ceisio gyrru'r agenda yma yn ei flaen ac mae'r adran yn ceisio amlygu nad oes digon o bwysau yn cael ei roi ar gwmnïau i ddatblygu'r elfen Gymraeg, ac mae risg fod y dechnoleg yn cael ei ddatblygu a'n bod methu cadw i fyny.
- **Cyfreithiol** - Mae lle i adlewyrchu ar y gwasanaeth a'r adnoddau ieithyddol sydd o fewn y Gwasanaeth Cyfreithiol megis dogfennau technegol sydd wedi eu creu gennym. Gall hwn fod yn adnodd i'w rannu'n allanol dan amodau priodol petai adnoddau'n caniatáu. Yn yr un modd, mae cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio technoleg rheoli achosion i'w llawn botensial ac i gefnogi darpariaeth drwy'r Gymraeg.

## 4. Sut ydych chi'n cadw cofnod o'r bobl sy'n defnyddio eich gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg? Allwch chi rannu data perthnasol?

e.e.

### Blynyddoedd cynnar

1. Data cyrhaeddiad y CSGA o ran nifer y lleoliadau gofal plant, a nifer plant sydd yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.
2. Nifer cylchoedd Ti a Fi, grwpiau Rhiant a Phlentyn sydd yn cael eu cefnogi/cynnal.
3. Nifer y gweithgareddau sydd yn cael eu targedu yn benodol at deuluoedd ifanc/rhieni a babanod gan wasanaethau'r Cyngor.
4. Nifer y gweithgareddau teuluol sydd yn cael eu trefnu gan y fenter iaith.
5. Nifer ymgyrchoedd rhannu adnoddau a gwybodaeth.

Dysgu

1. Ystadegau monitro CSGA
2. Nifer staff y Cyngor sydd yn derbyn hyfforddiant i wella sgiliau
3. Nifer prentisiaethau sydd yn cael eu cynnig gan y Cyngor
4. Nifer cyfleoedd hyfforddi/achrediadau sydd yn cael eu cynnig gan y gwasanaeth ieuenctid.

#### **Gwaith a gwasanaeth**

1. Nifer busnesau sydd yn derbyn cymorth ariannol drwy gynllun Arfor
2. Nifer staff sydd yn derbyn cefnogaeth i ddysgu Cymraeg neu ddatblygu sgiliau
3. Nifer staff sydd yn cymryd rhan mewn cynlluniau cyfeillio/pencampwyr

#### **Y gymuned**

1. Nifer gweithgareddau wedi eu cynnal gan wasanaethau'r Cyngor a'r fenter iaith ar gyfer gwahanol grwpiau
2. Nifer mentrau cymunedol sydd yn cael eu cefnogi drwy gynlluniau Adfywio ac Economi

#### **Ymchwil a thechnoleg**

1. Nifer prosiectau ymchwil sydd wedi eu cynnal gan y Cyngor, neu eu comisiynu gan y Cyngor

#### ***Unrhyw ddata arall perthnasol***

Nid yn addas i natur y gwasanaeth (h.y. cefnogi adrannau eraill y Cyngor).

### **5. Beth yw sgiliau iaith eich staff?**

Mae'r Adran wedi cynyddu o ran niferoedd eleni yn dilyn trosglwyddiad yr Uned Fusnes o'r Adran Oedolion 1 Ebrill 2024.

Mae 95.6% o staff yr Adran Tim Arweinyddiaeth a Gwasanaethau Cyfreithiol wedi cwblhau hunanasesiad iaith (108 o aelodau staff).

Mae 7 aelod o staff sydd heb gyflwyno hunanasesiad iaith ar hyn o bryd. Mae 2 o'r rheiny wedi derbyn asesiad iaith gan reolwr llinell, sy'n golygu mai 5 sydd heb asesiad iaith o gwbl.

O'r 108 sydd wedi cwblhau hunanasesiad roedd 5 ddim yn cwrdd ag anghenion iaith y swydd.

Trosglwyddwyd staff i mewn i'r Cyngor ar drefniant TUPE llynedd yn cynnwys rhai o'r aelodau oedd ddim yn cyfarch anghenion iaith ond mae ymdrechion i ddysgu'r iaith drwy wersi ac ymdrechion fel rhan o'r Cynllun Cyfeillion i gefnogi eu datblygiad.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae 1 unigolyn o fewn yr Adran wedi dilyn cwrs Gloywi iaith gyda Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin trwy'r cynllun Cymraeg Gwaith.

#### **Sylwadau pellach:**

**Cyfreithiol** - Mae cyfanswm o 22.25 gweithwyr Gyfystyr Swyddi Llawn Amser— 25 unigolyn yn y Gwasanaethau Cyfreithiol . Mae'r oll o'r staff cyflogedig yn gallu cyflawni holl ofynion y

swyddi drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 3 locum di Gymraeg (cyfystyr a 1.5 swydd) ar hyn o bryd yn cefnogi unai gwaith y Tim Cyfreithiol neu yn bennaf gwaith cyfreithiol rhanbarthol.

#### **Gwasanaethau Cymdeithasol -**

Aethpwyd ati yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau gwybodaeth gywir ar allu ieithyddol y gweithlu. Mae'r wybodaeth hynny ar gael erbyn hyn ar gyfer 90% o'r gweithlu gwasanaethau cymdeithasol. Hwn yn welliant sylweddol o flwyddyn a hanner yn ôl ble roedd y ffigwr oddeutu 65%.

### **6.Rhowch enghreifftiau o unrhyw rwystrau, cwynion a chanmoliaeth sy'n gysylltiedig gyda darparu a hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Gymraeg.**

#### **RHWYSTRAU**

- **Gohebiaeth Uniaith Saesneg** - Mae natur swyddi'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn golygu eu bod yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd aml-asiantaethol, ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol, yn rheolaidd. Mae'n anffodus fod rhai sefydliadau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn parhau i gynnal cyfarfodydd o'r fath drwy gyfrwng y Saesneg yn llawer rhy aml. Mae'r Adran hefyd yn gweld nifer o ddogfennau, e.e. grantiau yn cyrraedd sydd yn uniaith Saesneg. Mae'n hanfodol bwysig felly, fel cynrychiolwyr Cyngor Gwynedd, ein bod yn mynnu'r hawl i gyfrannu drwy'r Gymraeg ar bob cyfle.
- **Perthynas a'r Bwrdd Iechyd** – Rhaid cyd-weithio â sefydliadau allanol sydd ddim yn gweithredu'n fewnol yn bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg. E.e., mae'r Cyfarwyddwr Statudol (Gwasanaethau Cymdeithasol) yn cyd-weithio agos â'r Bwrdd Iechyd ac yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y Gymraeg. Mae tueddiad gan y Bwrdd Iechyd i droi i'r Saesneg os oes unrhyw un yn y cyfarfod yn methu deall Cymraeg, yn hytrach na sicrhau cyfieithydd ar y pryd ymlaen llaw. Erbyn hyn mae y mwyafrif helaeth o gyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y Gymraeg. Mae gwaith diweddar wedi ei wneud i geisio cyd-leoli lle yn bosibl i gryfhau perthnasau gwaith (e.e. rhwng Gweithwyr Cymdeithasol a Nyrsus Cymunedol) ond her naturiol os oes cyfran o'u staff yn ddi-gymraeg a fod iaith y swyddfa yn troi'n Saesneg. Sylw yn cael ei roi i sicrhau fod hyn ddim yn digwydd wrth l'r gwaith fynd yn ei flaen.
- Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn cymryd mantais o'u dylanwad fel siaradwyr Cymraeg i annog defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd a gweithdai, gan gyfrannu'n Gymraeg ar bob achlysur a sicrhau bod darpariaeth Gymraeg ar gael bob amser.
- **Gwasanaethau Cyfreithiol** –
  - O bryd i'w gilydd, mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn comisiynu defnydd o weithwyr locwm achyfreithwyr allanol er cyfarch gofynion am gapasiti neu arbenigedd penodol. Mae'n rhaid cydnabod ei bod yn her sicrhau darpariaeth o'r fath drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, ar bob achlysur lle mae hyn yn bosib byddwn yn blaenoriaethu defnyddio unigolion sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.
  - Yr agwedd arall yw'r angen i gyflogi cyfreithwyr arbenigol lefel uchel sydd yn meddu ar y gallu i ddarparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Lle'n bosib rydym yn cyfarwyddo cyfreithwyr a bargyfreithwyr sydd yn meddu â'r sgiliau iaith. Mewn rhai achlysuron mae modd sicrhau gwasanaeth ar y lefel uchaf i roi cyngor neu farn drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag ar faterion sydd un ai angen tîm ehangach, arbenigedd penodol neu faint prosiect mae sicrhau'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn llwyr yn anodd, os nad yn anymarferol. Mae'r gallu i ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei nodi ar gytundebau fframwaith cenedlaethol ond, nid yw hwn yn ddarpariaeth gyffredinol ar draws y cwmnïau. Adlewyrchir hyn yn helaeth hyd yn oed o fewn cwmnïau sydd â'u gwreiddiau yng Nghymru. Mae i'w



nodi fod y gallu i gynnig gwasanaeth drwy'r Gymraeg yn ffactor sydd yn cael ei adlewyrchu mewn cwmnïau lleol i Gymru fwy fwy ac yn sicr yn datblygu. Mae hyn yn caniatáu i'r Cyngor gyfarwyddo a derbyn cyngor cyfreithiol drwy'r Gymraeg.

- Mae modd ystyried yn y tymor canolig symud i sefyllfa lle mae modd cyflawni yr holl wasanaethau a ddarperir i Wynedd ac yn rhanbarthol drwy'r Gymraeg. Mae'n sefyllfa cyflogi yn benodol yn y maes cyfreithiol wedi gwella o ran denu a chadw staff mewn modd cynaliadwy. Rydym yn adeiladu ar hyn ac yn hyderus y gellir parhau i ddatblygu. Mae hyn yn cynnwys manteisio ar Gynllun Yfory i ddatblygu staff yn fewnol unai drwy hyfforddeion proffesiynol neu brentisiaethau. Mae gofynion penodol ac arbenigol o amgylch ein gwaith rhanbarthol sydd yn gosod gofynion tymor byr sydd rhaid eu cyfarch ac angen arbenigedd o fath arbennig. Fodd bynnag mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol hefyd wedi ymdrechu i leihau allanoli gwaith. Yn gyffredinol llwyddwyd i wneud hynny. Pan oedd angen recriwtio, rydym wedi bod yn llwyddiannus ar ddenu cyfreithwyr sydd yn meddu'r Gymraeg yn rhugl. Rydym yn parhau i symud l'r cyfeiriad yma ar draws pob agwedd o'r gwaith. Gan ein bod ar fin sefydlu CLG tymor hir gyda'r CBC bydd hyn yn creu cyfle i recriwtio ar sail mwy sefydlog.
- Mae'n bwysig cydnabod fod Gwasanaeth Cyfreithiol Gwynedd yn unigryw bron ymhlith y 22 Awdurdod, gan feddu ar dîm lle gallai'r holl swyddogion ddarparu gwasanaeth cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn parhau ac nid yw'r materion a nodwyd wedi newid diwylliant nac ychwaith natur y Gwasanaeth.

Mae'r Adran yn parhau i gefnogi ymdrechion y Cyngor i hyrwyddo cyrsiau iaith ymysg y gweithle – e.e. cwrs 'Defnyddio' Cymraeg Gwaith yn Nant Gwrtheyrn (Ebrill-Mehefin 2025). Maen nhw'n gyfleoedd arbennig wedi'u cyllido'n llawn.

Mae Swyddogion o fewn yr adran wedi bod yn rhan o Gynllun Cyfeillion Cymraeg ac wedi gweld budd mawr o'r naill ochr o fod yn rhan o'r cyfleon hyn.

Fel Tîm Arweinyddiaeth, byddwn yn parhau i hyrwyddo a manteisio ar bob cyfle a geir i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phriod le, nid yn unig yng ngwaith y Cyngor ond hefyd ar lefel cymunedol o fewn y Sir, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Adroddiad yr adran i Bwyllgor Iaith yn 2024: [Tm Arweinyddiaeth a Gwasanaethau Cyfreithiol.pdf](#)